TGAU

cbac
wjec

TGAU CBAC

# CELF A DYLUNIO

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## MANYLEB

Addysgu o 2016
I'w ddyfarnu o 2018

Fersiwn 2 Ionawr 2019



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad | 39 |

© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU CBAC mewn CELF a DYLUNIO

## I'w addysgu o 2016
## I'w ddyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

**Tudalen**


| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | | | **2** |
| **1.** | **Rhagarweiniad** | | **3** |
| | 1.1 | Nodau ac Amcanion | 3 |
| | 1.2 | Dysgu blaenorol a dilyniant | 5 |
| | 1.3 | Cydraddoldeb a mynediad teg | 5 |
| | 1.4 | Bagloriaeth Cymru | 5 |
| | 1.5 | Persbectif Cymreig | 5 |
| **2.** | **Cynnwys y pwnc** | | **6** |
| | 2.1 | Teitlau cymwysterau | 9 |
| | 2.2 | Crynodeb o'r teitlau | 10 |
| | 2.3 | Uned 1 | 13 |
| | 2.4 | Uned 2 | 14 |
| | 2.5 | Manylion am y teitlau | 15 |
| **3.** | **Asesu** | | **31** |
| | 3.1 | Amcanion asesu a phwysoli | 31 |
| | 3.2 | Trefniadau asesu | 32 |
| **4.** | **Gwybodaeth dechnegol** | | **39** |
| | 4.1 | Cofrestru | 39 |
| | 4.2 | Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | **39** |
| **Atodiadau** | | | |
| A: | Lluniadu | | 40 |
| B: | Cynlluniau marcio | | 42 |
| C: | Cynnwys a Awgrymir | | 46 |


© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU CELF a DYLUNIO (Cymru)

## CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Portffolio**
**60% o'r cymhwyster: 120 marc**

- Mae'r uned hon yn cynnwys prif bortffolio ymarferol a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu sy'n cael eu gosod yn fewnol a deunydd pwnc a ddatblygir o fannau cychwyn personol a/neu a roddir.
- Bydd y gwaith a gyflawnir yn rhan o'r uned hon yn cael ei osod a'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol.
- Y myfyriwr fydd yn dewis, yn gwerthuso ac yn cyflwyno'r gwaith i'w asesu.
- Mae angen tystiolaeth o sut mae'r myfyriwr wedi bodloni pob un o'r amcanion asesu.
- Dim terfyn amser: y ganolfan fydd yn penderfynu ar y cyfnod amser.

**Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**
**40% o'r cymhwyster: 80 marc**

Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cynnwys **dwy** ran:

***Rhan 1: Cyfnod astudiaeth baratoadol***

- Bydd CBAC yn gosod deunyddiau Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i'w rhyddhau i'r myfyrwyr **yn ddim cynharach na 2 Ionawr** (ym mlwyddyn yr asesiad). Bydd y deunyddiau hyn yn cynnwys aseiniadau wedi'u seilio ar themâu, ysgogiadau gweledol a briffiau ysgrifenedig, sydd i'w cyflwyno i'r myfyriwr ar ddechrau'r cyfnod astudiaeth baratoadol.
- Bydd **un** o'r aseiniadau yn cael ei ddewis gan y myfyriwr i'w ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer ymateb personol a chreadigol.
- Mae'r ymatebion hyn yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod gwaith paratoi. Dylai'r ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoi/astudiaethau cefnogol sy'n ymarferol, beirniadol a chyd-destunol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn wrth wireddu'r syniadau yn yr astudiaeth ddwys a manwl 10 awr.
- Diffinnir dechrau'r astudiaeth baratoadol fel dyddiad cyflwyno deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i'r myfyriwr. Gall y cyfnod gwaith dwys a manwl gychwyn ar **2 Ionawr** neu wedi hynny. Bydd y cyfnod astudiaeth baratoadol yn dod i ben pan ddechreuir ar y gwaith dwys a manwl.
- Y ganolfan sydd i benderfynu ar ddyddiadau dechrau a gorffen y cyfnod astudiaeth baratoadol, gan gymryd ystyriaeth o'r ffaith bod angen cyflwyno'r holl farciau asesiad mewnol i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai.

***Rhan 2: Cyfnod o 10 awr o waith dwys a manwl****

- Rhaid cwblhau'r broses o wireddu syniadau'r myfyriwr o'r gwaith paratoi yn ystod y 10 awr hyn o waith dwys a manwl.
- Rhaid cwblhau'r cyfnod o waith dwys a manwl dan amodau dan oruchwyliaeth.
- Canolfannau sydd i benderfynu ar amserlennu'r sesiynau dwys a manwl, gan gymryd ystyriaeth o'r ffaith bod angen cyflwyno'r holl farciau asesiad mewnol i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai.
- Y myfyriwr fydd yn dewis, yn gwerthuso ac yn cyflwyno'r gwaith i'w asesu.
- CBAC fydd yn gosod yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, i'w asesu gan yr athro/athrawes a'i safoni'n allanol.
- Bydd y gwaith paratoi a'r gwaith dwys a manwl yn cael eu hasesu gyda'i gilydd, gan ddefnyddio'r amcanion asesu.

* cytunwyd ar y cyfnod o 10 awr ar gyfer y gwaith dwys a manwl gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael yng nghyfres yr haf bob blwyddyn. Caiff ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2018.

**Rhif Cymhwyster ar restr The Register: 601/8251/9**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr QiW: C00/0780/4**

© WJEC CBAC Ltd.

# TGAU CELF a DYLUNIO

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Lluniwyd y fanyleb TGAU CBAC hon mewn Celf a Dylunio i gynnig profiadau dysgu i'r myfyrwyr sy'n ddeniadol, heriol, cydlynol ac ystyrlon gydag elfen o hyblygrwydd sy'n cefnogi datblygu arfer creadigol mewn ffordd ddilyniannol a chynyddol. Drwy gyfrwng rhaglen astudio sy'n wobrwyol ac yn ddeniadol, mae'r fanyleb hon yn ehangu profiad, yn datblygu'r dychymyg a sgiliau technegol, gan feithrin creadigedd a hybu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r fanyleb hon yn canolbwyntio ar feithrin brwdfrydedd am faes Celf, Crefft a Dylunio ac, yn seiliedig ar raglen sylfaen ragarweiniol eang, ar ddatblygu sgiliau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol sy'n galluogi i fyfyrwyr gael dealltwriaeth gyfannol o amrywiaeth o arferion a chyd-destunau ym meysydd celfyddydau gweledol, crefftau a dylunio.

Wrth ddatblygu'r fanyleb hon, ac ar ôl ymgynghori'n eang ag amrywiol randdeiliaid, mae CBAC wedi bod yn ymwybodol o'r angen i gynnwys y nodweddion canlynol:

- cyfleoedd i ddefnyddio dulliau addysgu hyblyg er mwyn i athrawon allu gwneud y mwyaf o'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael yn eu canolfannau
- cynnwys sy'n galluogi i athrawon barhau ag arfer gorau ac i fod â hyder wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni sy'n defnyddio'u cryfderau a buddion a galluoedd eu myfyrwyr
- astudiaeth eang yn seiliedig ar amrywiaeth o deitlau a luniwyd fel bod modd i fyfyrwyr ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau
- arweiniad penodol i ddisgyblaeth, sy'n manylu ar y prosesau arbenigol sy'n gysylltiedig â phob teitl mewn ffordd gefnogol ac yng nghyd-destun y meini prawf.

Yn unol â gofynion rheoleiddio'r holl fanylebau TGAU Celf a Dylunio, mae'r fanyleb hon yn annog myfyrwyr i wneud y canlynol:

- ymgymryd yn weithgar â phroses greadigol celf, crefft a dylunio er mwyn datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol gyda meddyliau ymchwilgar
- datblygu galluoedd creadigol, dychmygus a greddfol wrth archwilio a gwneud delweddau, arteffactau a chynhyrchion
- bod yn hyderus eu bod yn gallu cymryd risgiau a dysgu o brofiad wrth archwilio ac arbrofi â syniadau, prosesau, cyfryngau, defnyddiau a thechnegau
- datblygu dealltwriaeth feirniadol drwy sgiliau ymchwilio, dadansoddi, arbrofi, ymarferol, technegol a mynegiannol
- datblygu a mireinio syniadau a chynigion, canlyniadau neu ddatrysiadau personol mewn ffordd gynyddol annibynnol
- caffael a datblygu sgiliau technegol o weithio gydag amrywiaeth eang o gyfryngau, defnyddiau, technegau, prosesau a thechnolegau gyda phwrpas a bwriad
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gelf, crefft a dylunio mewn cyd-destunau, cymdeithasau a diwylliannau hanesyddol a chyfoes
- datblygu ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau gwahanol a'r arferion gweithio unigol sy'n amlwg wrth gynhyrchu celf, crefft a dylunio yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol
- datblygu ymwybyddiaeth o bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau celf, crefft a dylunio mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac fel y bo'n briodol i waith y myfyrwyr eu hunain
- dangos arferion gweithio diogel mewn celf, crefft a dylunio.

© WJEC CBAC Ltd.

Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny, rhaid annog dysgwyr hefyd i feithrin gwerthfawrogiad o bersbectif Cymreig mewn perthynas â'r uchod.

Pa bynnag deitl neu gyfuniad o deitlau a ddilynir, mae'r fanyleb hon yn cynnig cyfleoedd i ddilyn cwrs sy'n annog creadigedd, ymchwilio cyson, arbrofi, a dylunio a gwneud fel ffordd o feithrin sgiliau technegol a mynegiannol, gan estyn y profiad a'r ymateb personol, yn ogystal â datblygu dychymyg a meddwl myfyriol, beirniadol. Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle felly i feithrin amrywiaeth eang o'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer addysg bellach ac uwch, yn ogystal â chyflogaeth.

Mae Uned 1 'Portffolio' sy'n cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol yn annog dilyn rhaglenni astudio sy'n fentrus ac yn agored, yn hyrwyddo archwilio ac arbrofi pwrpasol a chynnig cyfleoedd i fyfyrwyr fynegi eu hunain mewn ffordd gynhyrchiol a phersonol. Mae Uned 2 'Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol' sy'n cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol yn galluogi i fyfyrwyr gymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a gafaelwyd ganddynt yn Uned 1 drwy greu canlyniad priodol ymhen cyfnod penodol o amser sy'n cyfleu eu cyflawniad gorau.

Lluniwyd y fanyleb hon o gwmpas pedwar prif faes er mwyn astudio celf, crefft a dylunio yn feirniadol, yn ymarferol ac yn ddamcaniaethol. Ynddynt, pwysleisir priodweddau dealltwriaeth ddadansoddol, arbrofi ymarferol, ymchwilio a mynegiant unigol y maent i gyd yn angenrheidiol ar lefel TGAU. Darparwyd y penawdau amcanion asesu isod er mwyn cynorthwyo athrawon a myfyrwyr:

| | |
|---|---|
| AA1 | Dealltwriaeth feirniadol |
| AA2 | Gwneud Creadigol |
| AA3 | Cofnodi Myfyriol |
| AA4 | Cyflwyno Personol |

Mae manylion llawn am yr amcanion asesu hyn i'w gweld yn Adran 3 y fanyleb hon.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio Celf a Dylunio naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch.  Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r myfyrwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw fyfyriwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol.  Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i fyfyriwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain).  Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC):  *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig:  Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).  Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru:
- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Cyflwyniad

Lluniwyd y fanyleb TGAU Celf a Dylunio CBAC hon fel cymhwyster llinol dwy flynedd o hyd. Mae dwy ran i'r fanyleb: Uned 1, y Portffolio (60% o'r cymhwyster, wedi'i hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol) ac Uned 2, yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (40% o'r cymhwyster, wedi'i hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol).

Mae'r fanyleb hon yn cynnig yr hyblygrwydd a'r cynhwysedd i adeiladu ar led a dyfnder arfer creadigol y myfyrwyr, ac ehangu ar hynny. Mae hefyd yn cynnig dewis o gwrs cyffredinol eang hefyd, yn ogystal â chwe opsiwn teitl penodol heb unrhyw gyfuniadau gwaharddedig o ran cofrestru.

Yn unol â gofynion rheoleiddio yr holl fanylebau TGAU Celf a Dylunio, mae manyleb CBAC yn gofyn i fyfyrwyr ddysgu drwy brofiad ymarferol a dangos eu bod yn gwybod ac yn deall am ffynonellau sy'n hysbysu eu bwriadau creadigol. Dylid gwireddu bwriadau drwy ymhél yn bwrpasol ag iaith weledol, cysyniadau gweledol, cyfryngau, deunyddiau a chymhwyso technegau a dulliau gweithio priodol. Dylai gweithgareddau ymarferol a damcaniaethol ategu'r gwaith.

Mae gofyn i fyfyrwyr ddatblygu a chymhwyso sgiliau pwnc-benodol perthnasol er mwyn defnyddio iaith weledol i gyfleu syniadau, ystyron ac ymatebion personol. Dros amser, bydd gofyn i'r myfyrwyr fyfyrio'n feirniadol ar eu taith greadigol a pha mor effeithiol y bu'r daith honno o ran gwireddu eu bwriadau personol. Dylai eu hymatebion estynedig fod yn ddigon hir i ganiatáu iddynt ddangos eu gallu i ddatblygu trywydd ymresymu cyson sy’n berthnasol, wedi’i gefnogi’n dda gan dystiolaeth, ac yn gydlynol, ac sy’n dwyn ynghyd wahanol feysydd gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o bob rhan o’r cwrs.

Gall myfyrwyr weithio'n llwyr mewn cyfrwng digidol neu'n llwyr mewn cyfrwng nad yw'n ddigidol, neu mewn cymysgedd o'r ddau, cyhyd ag y bodlonir y nodau a'r amcanion asesu.

Mae Uned 1, y Portffolio, yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr archwilio a gwella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth bwysig drwy amrywiaeth o brofiadau. Gall defnyddio adnoddau (*megis yr amgylchedd lleol, ymweliadau ag orielau, gweithdai a ffynonellau eraill) i gynnal ymchwil wedi'i ganolbwyntio sy'n cefnogi datblygiadau pwrpasol fod ymhlith y profiadau hyn. Yn ystod y cwrs, dylid annog myfyrwyr i arbrofi, cydweithio, gwneud penderfyniadau creadigol gwybodus ac arloesi. Dylid annog myfyrwyr hefyd i ystyried yn ofalus wrth ddethol a chyflwyno eu gwaith. Prif bwrpas y cwrs hwn yw datblygu ffordd hyderus o weithio a fydd yn cefnogi'r myfyrwyr wrth iddynt fynd ar eu taith greadigol tua diwedd Uned 1 ac yn Uned 2 a thu hwnt.

*Yn yr enghreifftiau hyn mae cyfleoedd i athrawon ymwneud â dysgu a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Persbectif Cymreig.

Yn unol â gofynion *Cynnwys Pwnc Celf a Dylunio yr AA,* mae'r fanyleb hon yn pwysleisio gwerth sgiliau lluniadu. Mae pob manyleb TGAU Celf a Dylunio'n gofyn bod myfyrwyr yn 'defnyddio sgiliau lluniadu at anghenion a phwrpasau gwahanol, yn briodol i'r cyd-destun'. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod cyd-destun y gofyn hwn. Mae'r darn canlynol o gynnwys pwnc yr AA yn rhoi eglurhad a chadarnhad defnyddiol i athrawon a myfyrwyr:

*All students must use drawing to support the development process within each chosen area of study. Students are not required to demonstrate technical mastery of drawing skills unless this is relevant to their area of study.*

© WJEC CBAC Ltd.

Felly nid yw 'meistrolaeth dechnegol' yn ofyniad o anghenraid ac nid oes rhaid i weithgareddau lluniadu bob amser olygu ymgymryd ag astudiaethau arsylwadol manwl gywir a hynod fedrus. Yn hytrach, mae'r datganiad uchod yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i fyfyrwyr ddatblygu gallu yn y ffurfiau lluniadu sy'n briodol i'r ddisgyblaeth/teitl maen nhw'n ei (h)astudio. Dylai'r ffocws hwn annog myfyrwyr i werthfawrogi arwyddocâd lluniadu yn yr ystyr ehangaf, drwy adnabod ac adolygu sut mae'n cyfrannu at y broses greadigol.

(Dylid cyfeirio at Atodiad A y fanyleb hon er mwyn cael eglurhad pellach o'r gofyn hwn ynghyd â mwy o arweiniad a gwybodaeth am ddiffiniadau a phwrpasau lluniadu.)

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

Yn y fanyleb hon mae gofyn i fyfyrwyr ddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu rhestru isod drwy gymhwyso sgiliau mewn ffordd ymarferol er mwyn gwireddu bwriadau personol sy'n berthnasol i'r teitl(au) o'u dewis a maes (meysydd) astudio perthynol. Mae gofyn i'r myfyrwyr wybod a deall sut mae ffynonellau'n ysbrydoliaeth ar gyfer datblygu syniadau, er enghraifft, drwy ystyried:

- gwaith a dulliau gweithio artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr o gyd-destunau, cyfnodau, cymdeithasau a diwylliannau cyfoes a/neu hanesyddol
- amgylcheddau, sefyllfaoedd neu faterion cyfoes a/neu hanesyddol
- ffynonellau perthnasol eraill a ymchwiliwyd gan y myfyriwr yn y teitl cymhwyster a'r maes (meysydd) astudio o'u dewis
- y ffyrdd o gyfleu ystyron, syniadau a bwriadau drwy iaith weledol a chyffyrddol, gan ddefnyddio elfennau ffurfiol, yn eu plith lliw, llinell, siâp, ffurf, tôn a gwead
- nodweddion, priodweddau ac effeithiau defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau gwahanol, a'r ffyrdd o'u defnyddio mewn perthynas â bwriadau creadigol a maes (meysydd) astudio dewisol y myfyriwr ei hun
- pwrpasau, bwriadau a swyddogaethau gwahanol celf, crefft a dylunio mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac fel y bo'n briodol i waith y myfyrwyr eu hunain.

Yn y fanyleb hon, diffinnir iaith weledol fel rhywbeth sy'n cynnwys elfennau ffurfiol, cyfryngau, defnyddiau, offer, prosesau a thechnoleg, yn ogystal â'r amrywiol ddulliau cyfathrebu heblaw am ddulliau gweledol, megis y cyffyrddol a'r synhwyrol.

Ar y cyfan, bydd elfennau ffurfiol celf, crefft a dylunio'n cael eu rhestru fel agweddau ar liw, llinell, tôn, gwead a siâp neu ffurf.  Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr o bell ffordd. Gall priodweddau ffurfiol eraill gynnig ysbrydoliaeth a bod yn werthfawr wrth fynd ati i ddatblygu syniadau.  Ymhlith yr enghreifftiau mae tryloywder, didreiddedd, allwedd, gofod, plastigedd, egni, tensiwn, amser, graddfa, symudiad, cyferbyniad, rhythm, a phatrwm.

## Sgiliau

Mae’r fanyleb hon yn gofyn i fyfyrwyr ddangos eu bod yn gallu:

- datblygu eu syniadau drwy ymchwiliadau sy'n seiliedig ar ddethol a dadansoddi ffynonellau'n feirniadol
- cymhwyso dealltwriaeth o arferion perthnasol yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol at eu gwaith
- mireinio eu syniadau wrth i waith fynd rhagddo drwy arbrofi â'r cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau
- cofnodi eu syniadau, arsylwadau, mewnwelediadau a barnau annibynnol, yn weledol a thrwy anodi ysgrifenedig, gan ddefnyddio geirfa arbenigol briodol, wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen

© WJEC CBAC Ltd.

- defnyddio iaith weledol yn feirniadol fel sy'n briodol i'w bwriadau creadigol eu hunain a'r maes (meysydd) astudio o'u dewis drwy wneud defnydd effeithiol a diogel o: cyfryngau, defnyddiau, technegau, prosesau a thechnolegau
- defnyddio sgiliau lluniadu at anghenion a phwrpasau gwahanol, fel sy'n briodol i'r cyd-destun, er enghraifft, defnyddio lluniadu fel rhan o broses ddatblygu ym mhob maes astudio o'u dewis
- gwireddu bwriadau personol drwy gynnal eu cymhwysiad o'r broses greadigol.

Dylai myfyrwyr sy'n dilyn manylebau TGAU Celf a Dylunio ddefnyddio lluniadu i gefnogi'r broses ddatblygu ym mhob maes astudio o'u dewis. Nid oes gofyn i fyfyrwyr ddangos meistrolaeth dechnegol ar sgiliau lluniadu oni bai bod gwneud hynny'n berthnasol i'w maes astudio. (Gweler Atodiad A, Lluniadu, am esboniad llawn o'r gofyn hwn.)

Mae'r fanyleb hon yn hybu'r defnydd o gyd-destunau o Gymru yn y TGAU Celf a Dylunio. Mae'n annog yr athrawon i roi cyfleoedd i'r dysgwyr ymwneud â'r persbectif Cymreig wrth weithio'n greadigol. Lle bo'n briodol gwneud hynny, rhaid annog dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau drwy ddefnyddio:

- ffynonellau lleol megis yr amgylchedd, pensaernïaeth, sefydliadau diwylliannol, neu arteffactau lleol, sy'n benodol i Gymru neu'n nodwedd ohoni
- gwaith artistiaid, dylunwyr neu grefftwyr cyfoes sy'n cyfrannu ar hyn o bryd at y diwydiannau creadigol yng Nghymru
- gwaith artistiaid, dylunwyr neu grefftwyr o'r gorffennol, sydd wedi byw a gweithio yng Nghymru, neu'r rheini sydd wedi mabwysiadu ffocws neu bersbectif Cymreig yn eu harfer
- treftadaeth, arferion, diwylliant, nodweddion ieithyddol a/neu hunaniaeth artistig a diwydiannol Cymru.

Mae'r persbectif Cymreig yn rhan o'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol hefyd gan ddefnyddio delweddau o ffynonellau cynradd wedi'u lleoli yng Nghymru a chyfeirio at artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr o Gymru lle bo'n briodol gwneud hynny.

## Gwaith ysgrifenedig

Dylid nodi bod gofyn i fyfyrwyr gofnodi eu syniadau, arsylwadau, mewnwelediadau a barnau annibynnol trwy gyfrwng anodi ysgrifenedig yn ogystal ag yn weledol. Mae’n bosibl y bydd myfyrwyr yn dymuno darparu datganiadau mwy sylweddol hefyd i egluro eu prosesau gweithio. Bydd cyd-destun a ffurf ysgrifennu o’r fath yn dibynnu ar yr hyn y mae’r myfyriwr yn dymuno ei gyfleu neu ei fynegi. Er enghraifft, gall ffurfiau mwy estynedig ar ysgrifennu gael eu defnyddio pan fydd myfyrwyr yn ysgrifennu am eu hymwneud â gwaith pobl eraill neu’n esbonio a myfyrio ar ddatblygiad eu syniadau yn eu Datganiadau Creadigol. Pa un a yw myfyrwyr yn defnyddio anodi a/neu ffurfiau mwy estynedig, dylent ddefnyddio dull ysgrifennu sy’n addas i’r pwrpas, sy’n ddarllenadwy, clir a rhesymegol, ac sy’n defnyddio geirfa arbenigol briodol. Gall y gwaith ysgrifenedig a gyflwynir fod mewn llawysgrifen a/neu ar ffurf ddigidol.

Gall myfyrwyr ddefnyddio anodi neu ffurfiau mwy estynedig ar ysgrifennu i ddangos sut maen nhw wedi bodloni unrhyw un o’r amcanion asesu neu unrhyw gyfuniad ohonynt. Yn AA1, disgwylir y bydd gwaith ysgrifenedig yn amlygu dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol. Yn AA2, er enghraifft, gall sylwebaeth ysgrifenedig gael ei defnyddio i ystyried y perthnasoedd rhwng dulliau gweithio ymarferol a chanlyniadau, yn ogystal â dangos adolygu beirniadol parhaus. Yn AA3, gall myfyrwyr ddefnyddio nodiadau ysgrifenedig, ar y cyd â lluniadu, fel ffordd o gofnodi arsylwadau a dangos myfyrio a mewnwelediad beirniadol yn ystod eu hymchwiliadau. Yn AA4, er enghraifft, gall myfyrwyr ddefnyddio anodi i wneud eu gwaith yn fwy ystyrlon ac i werthuso eu prosesau gweithio.

© WJEC CBAC Ltd.

Trwy gydol y cwrs dylid annog y myfyrwyr i weld gwerth anodi ac i ddeall sut gall fod yn rhan annatod o'r broses greadigol o'i gyfuno ag ymchwilio ymarferol; gall fod yn nodwedd annatod o'r broses greadigol. Dylai ymatebion ysgrifenedig ac ymarferol gael eu hintegreiddio'n bwrpasol, dylent ategu ei gilydd, a chânt eu hasesu'n gyfannol.

## 2.1 Teitlau Cymwysterau

Mae'r fanyleb hon yn gofyn i fyfyrwyr ddatblygu a chymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau (a nodir yn y cyflwyniad i Adran 2) mewn ffyrdd sy'n berthnasol i lwybrau dilyniant cydnabyddedig y pwnc. Er mwyn eglurder defnyddwyr, rhaid defnyddio teitlau cymwysterau TGAU Celf a Dylunio ar wahân sy'n cyfateb i'r llwybrau hyn.

Mae dewis o saith teitl yn y fanyleb TGAU hon mewn Celf a Dylunio. Ym mhob teitl cynigir dewis pellach o feysydd astudio ond nid oes angen cyfyngu'r gwaith i un yn unig o'r rhain. Gall y Portffolio a'r Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol gynnwys agweddau ar unrhyw faes astudio ar wahân neu fel cyfuniad.

Mae pob un o'r teitlau canlynol yn cael ei gydnabod fel cymhwyster TGAU arwahanol:

**Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio)**

**Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)**

**Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig)**

**Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau)**

**Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn)**

**Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)**

**Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol).**

Mae crynodeb o bob teitl yn Adran 2.2 ac eglurhad pellach yn Adran 2.5.
Yn Atodiad C mae'r cynnwys a awgrymir yn rhoi arweiniad i athrawon a myfyrwyr ar y mathau o dystiolaeth sy'n angenrheidiol i fodloni pob amcan asesu yng nghyd-destun pob teitl.

© WJEC CBAC Ltd.

## 2.2 Crynodeb o'r Teitlau

### Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio)

Lluniwyd y teitl hwn er mwyn hybu dysgu drwy gynnig amryw o brofiadau a thrwy roi cyfle i ddefnyddio amryfal brosesau, offer, technegau, defnyddiau ac adnoddau i gynhyrchu gwahanol fathau o dystiolaeth o ddulliau gweithio a chanlyniadau. Mae’r pwyslais ar ymagwedd fwy *eang* sy’n gymesur o ran galw â *dyfnder* y dysgu sydd ei angen yn y teitlau mwy arbenigol. Pwysleisir *nad* yw'r teitl 'Celf, Crefft a Dylunio' yr un peth â'r teitl 'Celfyddyd Gain'.

Mae'r teitl hwn yn cynnig hyblygrwydd o ran cynnwys a dull ynghyd â'r cyfle i archwilio a chreu gwaith yn ymwneud â meysydd astudio **o ddau o leiaf o'r teitlau** ar y rhestr isod.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl celf, crefft a dylunio ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a nodir yng nghyflwyniad Adran 2. Mae gofyn i'r myfyrwyr ddangos eu bod yn gallu gwireddu bwriadau creadigol sy'n berthnasol i'r meysydd astudio a ddaw o ddau o leiaf o'r teitlau canlynol:

- Celfyddyd Gain
- Cyfathrebu Graffig
- Dylunio Tecstilau
- Dylunio Tri Dimensiwn
- Ffotograffiaeth
- Astudiaethau beirniadol a chyd-destunol.

Gall myfyrwyr archwilio meysydd sy'n gorgyffwrdd a/neu gyfuniadau o'r disgyblaethau o unrhyw un o'r teitlau uchod.

### Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)

Diffinnir y teitl hwn fel yr agwedd honno ar gelf, crefft a dylunio lle mae gwaith yn cael ei ddatblygu'n bennaf at bwrpasau esthetig, deallusol neu gysyniadol pur yn hytrach nag at bwrpasau y mae'n rhaid iddynt gael swyddogaeth ymarferol.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl celfyddyd gain ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a nodir yng nghyflwyniad Adran 2 ar sail meysydd astudio sy'n berthnasol i'r teitl o'u dewis. Ymhlith y meysydd astudio mae:

- Lluniadu
- Gosod
- Cyfryngau lens a golau seiliedig
- Cyfryngau cymysg.
- Celf y tir
- Argraffu
- Peintio
- Cerflunwaith.

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig)

Diffinnir y teitl hwn fel y broses o greu deunydd sy'n weledol yn bennaf i gyfleu gwybodaeth, syniadau ac emosiynau trwy ddefnyddio elfennau graffig megis lliw, eiconau, delweddau, teipograffeg a ffotograffau.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl cyfathrebu graffig ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a nodir yng nghyflwyniad Adran 2 ar sail meysydd astudio sy'n berthnasol i'r teitl o'u dewis. Ymhlith y meysydd astudio mae:

- Hysbysebu
- Graffeg cyfathrebu
- Dylunio printiau
- Darlunio
- Dylunio rhyngweithiol (gan gynnwys y we, apps a gêm)
- Amlgyfrwng
- Dylunio pecyn
- Arwyddion
- Teipograffeg.

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

## Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau)

Diffinnir y teitl hwn fel creu dyluniadau a chynhyrchion ar gyfer ffabrigau wedi'u gwehyddu, eu gwau, eu pwytho neu eu printio ac mae gofyn cael dealltwriaeth o ffibrau, edafedd a ffabrigau.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl dylunio tecstilau ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a nodir yng nghyflwyniad Adran 2 ar sail meysydd astudio sy'n berthnasol i'r teitl o'u dewis. Ymhlith y meysydd astudio mae:

- Tecstilau wedi'u hadeiladu
- Tecstilau digidol
- Ffabrigau wedi'u llifo
- Ffabrigau wedi'u hargraffu
- Dylunio ffasiwn
- Tecstilau wedi'u gosod
- Dodrefnu meddal
- Tecstilau wedi'u brodio a/neu wedi'u haddurno.

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn)

Diffinnir y teitl hwn fel dylunio, prototeipio, modelu neu wneud cynhyrchion traul, gwrthrychau ac amgylcheddau sydd yn anad dim yn swyddogaethol ac esthetig.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl dylunio tri dimensiwn ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a nodir yng nghyflwyniad Adran 2 ar sail meysydd astudio sy'n berthnasol i'r teitl o'u dewis. Ymhlith y meysydd astudio mae:

- Dylunio pensaernïol
- Dylunio mewnol
- Dylunio cynnyrch
- Dylunio ar gyfer arddangosfeydd
- Dylunio amgylcheddol/tirlun
- Cerflunwaith
- Dylunio ar gyfer y theatr, ffilm a'r teledu
- Gemwaith ac addurniadau corff
- Cerameg.

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

## Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)

Diffinnir y teitl hwn fel yr arfer o greu delweddau statig neu symudol hirbarhaol trwy gofnodi golau â defnyddiau sensitif i olau fel ffilm ffotograffig neu’n ddigidol trwy ddefnyddio synhwyrydd delweddau.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl ffotograffiaeth ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a nodir yng nghyflwyniad Adran 2 ar sail meysydd astudio sy'n berthnasol i'r teitl o'u dewis. Ymhlith y meysydd astudio mae:

- Ffotograffiaeth ddogfennol
- Ffotonewyddiaduraeth
- Ffotograffiaeth stiwdio
- Ffotograffiaeth lleoliad
- Delweddaeth arbrofol
- Gosod
- Delwedd symudol: ffilm, fideo ac animeiddio.

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

© WJEC CBAC Ltd.

**Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol)**

Diffinnir y teitl hwn fel y dadansoddiad beirniadol, dehongliad ac arfarnu myfyriol o waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o safbwynt cyfoes.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl astudiaethau beirniadol a chyd-destunol ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a nodir yng nghyflwyniad Adran 2 ar sail meysydd astudio sy'n berthnasol i'r teitl o'u dewis. Ymhlith y meysydd astudio mae:

- Artistiaid, crefftwyr a dylunwyr
- Genres
- Mudiadau
- Themâu, cysyniadau a syniadau mewn celf, crefft a dylunio
- Celf, crefft a dylunio cyfoes
- Diwylliant poblogaidd
- Y ffurf ddynol
- Bywyd llonydd
- Gwrthrychau wedi'u dylunio
- Tirlun
- Ffurfiau naturiol.

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio a gall ymdrin ag unrhyw faes Celf a/neu Grefft a/neu Ddylunio (dylid cyfeirio at Adran 2.5).

## 2.3 Uned 1

### Portffolio

Mae'r uned hon yn cynnwys prif broject ymarferol/portffolio seiliedig ar thema a gwaith/gweithiau terfynol y mae dadansoddiad beirniadol a chyd-destunol yn rhan ohono. Y myfyriwr a'r athro sydd i benderfynu ar ba aseiniadau, briffiau neu themâu i'w hymgymryd.

Lluniwyd yr uned hon fel bod modd i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau craidd sylfaenol rhagarweiniol a chael eu hannog i ymgymryd â phrofiadau creadigol cyffrous sy'n datblygu dysg a'u gwybodaeth sylfaenol, sgiliau cyd-destunoli a meddwl beirniadol. Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer yr uned hon yn cynnig cyfleoedd hefyd i ganolbwyntio ar feithrin sgiliau gwerthfawr (sy'n cynnwys arbrofi, cymryd risg, lluniadu a'r gallu i ddadansoddi a chyfosod gwybodaeth a syniadau) yn ogystal â datblygu a mireinio technegau.

Bydd agweddau cyflwyniadol y cwrs yn arwain at broject/portffolio ymarferol. Yma, dylai myfyrwyr ddatblygu, mewn ymgynghoriad â'r athro, gorff o waith yn seiliedig ar thema, cysyniad neu friff dylunio penodol sydd ag arwyddocâd personol i'r dysgwr, a chysylltiadau i gyd-destunau o artistiaid, dylunwyr neu grefftwyr cyfoes a/neu o'r gorffennol.

Mae'r Portffolio yn cael ei asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol (rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn cyflwyno marciau i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai). Bydd yr holl waith a gynhyrchir ar gyfer yr uned hon yn cael ei farcio mewn perthynas â'r amcanion asesu.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.4 Uned 2

## Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol

Yr uned hon yw diweddglo astudiaeth TGAU y myfyrwyr ac mae'n ddwys ac yn heriol. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'n annibynnol ymateb i un dewis o amrediad amrywiol o ysgogiadau o fewn cyfyngiadau amser a nodir. Rhaid i fyfyrwyr felly ddwyn ynghyd y gorau o'r ddealltwriaeth, y wybodaeth a'r sgiliau a adeiladwyd dros eu cwrs astudio ac arddangos eu cyrhaeddiad uchaf drwy'r aseiniad hwn a osodir yn allanol.

Mae deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cynnwys cyfres o aseiniadau sy'n seiliedig ar themâu, ysgogiadau gweledol a briffiau ysgrifenedig wedi'u gosod gan CBAC. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddewis **un** o'r aseiniadau gosod a'i ddatblygu ar ffurf:

- ymateb personol
- briff dylunio penodol
- neu ddull addas arall.

Bydd myfyrwyr yn datblygu eu hymateb dros **gyfnod paratoi** (y ganolfan sydd i benderfynu ar hyd y cyfnod paratoi hwn). Rhaid i ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoadol a/neu astudiaethau cefnogol sy'n feirniadol, ymarferol a chyd-destunol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn i wireddu'r syniadau hyn mewn astudiaeth ddwys a manwl .

Yn dilyn y cyfnod astudiaeth baratoadol hwn, dyrennir cyfnod o **10 awr o waith dwys a manwl** i'r myfyrwyr i wireddu eu hymateb heb gymorth ac mewn amodau dan oruchwyliaeth.
Ar ôl i'r cyfnod o waith dwys a manwl 10 awr gychwyn, ni ddylai myfyrwyr gael gweld **naill ai** eu gwaith ar gyfer yr astudiaeth baratoadol ac ymchwil **na** gwaith a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod o waith dwys a manwl. Ar ddiwedd pob sesiwn o waith dwys a manwl dylai'r ganolfan gadw gwaith Uned 2 yr holl ymgeiswyr yn ddiogel er mwyn sicrhau nad oes modd dod ag unrhyw waith ychwanegol i mewn i'r gweithle penodol na mynd ag unrhyw waith oddi yno.

Ar ddiwedd eu cyfnodau astudiaeth paratoadol a chyfnodau o waith dwys a manwl, bydd gofyn i fyfyrwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno'u gwaith i'w asesu. Dylai'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod o waith dwys a manwl gael ei nodi'n glir. Yn ychwanegol, dylai myfyrwyr sicrhau bod yr holl ddeunydd ffynhonnell eilaidd wedi ei gydnabod yn briodol. Os oes gwaith wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad nad yw'n llwyr berthyn i'r dysgwr, fel dyfyniadau a delweddau wedi'u cynhyrchu gan eraill, mae'n hanfodol nodi a chydnabod bob un o'r rhain yn benodol.

Asesir myfyrwyr ar eu gallu i weithio'n annibynnol, o fewn cyfyngiadau amser penodol ac mewn perthynas â'r pedwar amcan asesu. Bydd yr astudiaeth baratoadol a'r gwaith dwys a manwl yn cael eu hasesu gyda'i gilydd. (Gweler Adran 3.2 am amodau'n ymwneud â'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.)

### Y cyfnod o waith dwys a manwl dan oruchwyliaeth

- Mae deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol a osodir gan CBAC i'w rhyddhau i'r myfyrwyr ar 2 Ionawr neu wedi hynny ym mlwyddyn galendr yr asesiad.
- Diffinnir dechrau'r cyfnod o astudiaeth baratoadol fel dyddiad cyflwyno deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i'r myfyriwr. Gall y cyfnod gwaith dwys a manwl gychwyn ar **2 Ionawr** neu wedi hynny. Bydd y cyfnod astudiaeth baratoadol yn **dod i ben** pan ddechreuir ar y gwaith dwys a manwl.
- Y ganolfan sydd i benderfynu ar ddyddiadau dechrau a gorffen y cyfnodau astudiaeth paratoadol a'r gwaith dwys a manwl 10 awr o hyd ond bydd angen cymryd ystyriaeth o'r ffaith fod angen cyflwyno holl farciau'r asesiad mewnol i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai.
- Asesir y gwaith yn fewnol a'i safoni'n allanol.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.5 Manylion am y Teitlau

## Cyflwyniad

Awgrymiadau yw'r canlynol am deitlau yn y fanyleb a luniwyd i gynnig dewis i athrawon a myfyrwyr. Maent yn rhoi manylion defnyddiol o ran yr ehangder a'r amrywiaeth sy'n bosibl mewn disgyblaethau celf a dylunio. Bydd Canllawiau i Athrawon TGAU CBAC yn cynnig trafodaeth bellach am deitlau a meysydd astudio perthynol. Dylai canolfannau sicrhau bod amrywiaeth briodol o adnoddau arbenigol yn ymwneud â'r teitlau ar gael i fyfyrwyr cyn iddynt ymgymryd â chyrsiau o'r fath. Mae'r holl deitlau'n galluogi myfyrwyr i weithio gyda chyfryngau digidol yn unig o fewn unrhyw deitl ar yr amod bod y nodau ac amcanion asesu'n cael eu bodloni. O fewn pob teitl, dylai gwaith y dysgwyr integreiddio gwaith ymarferol a beirniadol/cyd-destunol.

## Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth

Ym mhob un o'r teitlau canlynol mae gofyn i'r myfyrwyr ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a nodwyd yn eu cyflwyniad i Adran 2, drwy'r meysydd astudio perthnasol i'r teitl o'u dewis.

### Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio)

Mae'r teitl hwn yn cynnig cwrs eang ei sylfaen a luniwyd i hyrwyddo dysgu ar draws amrywiaeth o brofiadau. Gall Celf, Crefft a Dylunio gynnwys y defnydd o amrywiaeth ddiderfyn bron o dechnegau, prosesau a defnyddiau, yn eu plith y rheini y mae modd eu hailgylchu. Gellir defnyddio amryfal brosesau, offer, technegau, defnyddiau ac adnoddau i greu arteffactau a chynhyrchu gwahanol fathau o dystiolaeth o ddulliau gweithio a chanlyniadau.

Mae'r pwyslais ar ymagwedd fwy *eang* sy'n gymesur o ran galw â *dyfnder* y dysgu sydd ei angen yn y teitlau mwy arbenigol. Mae modd gwahaniaethu rhwng *Celf, Crefft a Dylunio* a theitlau eraill gan ei fod yn galluogi myfyrwyr i archwilio diddordebau personol a dangos eu gallu ar draws cwrs astudio arbennig o eang.

Rhaid i fyfyrwyr hefyd archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr hanesyddol a chyfoes ynghyd â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau celf, crefft a dylunio fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain.

Cynigir hyblygrwydd mewn ***Celf, Crefft a Dylunio*** o ran cynnwys a dull ac mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n dilyn yr opsiwn hwn archwilio a chreu gwaith sy'n gysylltiedig â **dau o leiaf o'r teitlau** ar y rhestr isod:

- **Celfyddyd Gain**
- **Cyfathrebu Graffig**
- **Dylunio Tecstilau**
- **Dylunio Tri Dimensiwn**
- **Ffotograffiaeth**
- **Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol.**

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf, Crefft a Dylunio: termau a diffiniadau

Darperir y diffiniadau gweithiol eang canlynol o 'celf', 'crefft' a 'dylunio' er mwyn sicrhau eglurder. Dylid deall fodd bynnag ei bod yn amhosibl tynnu llinell bendant rhwng y gweithgareddau hyn; mae'r meysydd hyn yn aml yn rhyngddibynnol ac yn rhyngberthynol.

### Celf

Mae Celf yn cyfuno gweithgaredd ymarferol a deallusol ac yn dueddol o ganolbwyntio ar fynegiant creadigol. Mae prosesau a chanlyniadau yn cael eu dylanwadu gan gyfyngiadau neu fwriadau penodol. Bydd nifer o'r rhain wedi'u pennu gan yr artist. Gall prosesau fod yn strwythuredig neu'n benagored a gallant gynnwys archwiliad o brofiadau, teimladau, canfyddiadau ac arsylwadau. Gallai'r rhain gynnwys astudiaeth uniongyrchol, feirniadol a dadansoddol o arteffactau, gwrthrychau, lleoedd a phobl. Gallent gychwyn gyda'r unigolyn, neu fel ymateb i ysgogiad a roddwyd, fel thema, mater, neu broblem. Gall y canlyniadau adlewyrchu dychymyg, dylanwadau a bwriadau'r unigolyn wrth ddilyn syniad, gan gyfleu profiad neu fynegi teimladau, yn aml â'r pwrpas o ddenu sylw'r rheini a fydd yn gweld y gwaith.

### Crefft

Mae Crefft yn cyfuno sgiliau ymarferol a deallusol ac yn canolbwyntio ar eu defnyddio'n greadigol i drin defnyddiau, offer a phrosesau yn sensitif a deallusol. Mae'n cynnwys cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth am ddefnyddiau a'u nodweddion gweithredol, ynghyd â sgiliau crefft a bwriadau creadigol sy'n ystyried anghenion gwneuthurwr a defnyddiwr y canlyniad terfynol. Er bod angen i fyfyrwyr gael gwybodaeth weithredol a gwerthfawrogiad o ddefnyddiau, offer a phrosesau traddodiadol, dylent hefyd fod yn gyfarwydd â defnyddiau a thechnolegau newydd sy'n datblygu mewn gwaith crefft cyfoes. Mae'n hanfodol sicrhau bod pwyslais priodol ar y sgiliau llaw yn ogystal ag ar y syniadau creadigol a'r dulliau dychmygus o ddefnyddio defnyddiau a phrosesau.

### Dylunio

Mae Dylunio yn rhoi pwyslais ar y ffordd mae gweithgaredd ymarferol a deallusol yn cyfuno er mwyn ymateb i anghenion pobl. Gall y dylunydd ei hun gynhyrchu briffiau dylunio neu wneud hynny ar gais cleient. Dyma sy'n tueddu i wahaniaethu dylunio a dulliau celf a chrefft a gychwynnwyd ar y cyfan gan yr artist neu'r crefftwr unigol. Mae'r dylunydd yn dueddol o weithio o fewn paramedrau a osodir yn allanol ac yn ystyried materion fel y defnydd sydd i'w wneud o'r canlyniad yn nhermau gwydnwch, ergonomeg, ymddangosiad esthetig, costau ac argaeledd defnyddiau, ystyriaethau moesegol a dulliau cynhyrchu. Gall prosesau a chanlyniadau amrywio o fod yn rhai mympwyol, dychmygus a mentrus i fod yn addasiad meddylgar o ddyluniadau sy'n bodoli'n barod – proses gynyddol o barhau i wella gan bwyll bach yw dylunio yn aml. Mae'n hanfodol cael dealltwriaeth o bwysigrwydd y berthynas rhwng ffurf a swyddogaeth.

Yn **Uned 1,** y Portffolio, dylai myfyrwyr sy'n dewis *Celf, Crefft a Dylunio* archwilio gwaith ymarferol a beirniadol a chyd-destunol. Rhaid i'r gwaith a ddetholir ar gyfer portffolios gynnwys enghreifftiau o brosesau dau ddimensiwn a/neu dri dimensiwn a chyfryngau sy'n gysylltiedig â meysydd astudio o **fwy nag un teitl arbenigol**. Argymhellir adolygu'r disgrifiadau manwl o'r teitlau arbenigol a ganlyn er mwyn eu defnyddio wrth ystyried y dewis o feysydd astudio posibl.

Yn **Uned 2,** yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, gall myfyrwyr ddewis creu astudiaethau a gwaith paratoadol yn ystod y cyfnod o waith dwys a manwl sy'n **cyfleu un neu fwy o'r teitlau arbenigol.**

© WJEC CBAC Ltd.

Proses gyfannol mewn perthynas â'r pedwar amcan asesu fydd asesu'r holl waith a gyflwynir ar gyfer Unedau 1 a 2. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i led a dyfnder y dystiolaeth a gyflwynir.

Dylai myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio meysydd ymarferol a chyd-destunol a ddewiswyd o gelf, crefft a dylunio i amrediad o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn. Gall *celf, crefft a dylunio* gynnwys y defnydd o amrediad bron yn ddi-ben-draw o dechnegau, prosesau a defnyddiau, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau dyfnder priodol yn ogystal â lled y profiadau dysgu.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer celf, crefft a dylunio, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy’n gweithio mewn galwedigaethau sy’n gysylltiedig â’r teitlau arbenigol Celfyddyd Gain, Cyfathrebu Graffig, Dylunio Tecstilau, Dylunio Tri Dimensiwn neu Ffotograffiaeth, a meysydd astudio sy’n berthnasol i’r rhain.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Celf, Crefft a Dylunio* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes ac archwilio ffynonellau eraill sy’n berthnasol i’r meysydd astudio o’u dewis yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio’r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o’r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celf, crefft a dylunio a’r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys cymwysiadau mwy ymarferol ffurfiau celf, crefft a dylunio.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. Defnyddio’r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i’r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo’n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang a defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio manylion yn y broses o ddylunio a chynhyrchu darnau ceramig, neu ddefnyddio tôn neu liw yn fanwl gywir, neu sefydlu perthnasoedd rhwng teipograffeg a delweddau.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i’r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth gyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, yn enwedig lluniadu, gan gynnwys, er enghraifft, astudiaethau llinell, lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio, taflenni astudio a/neu ar lechi cyfrifiadurol neu ddulliau eraill, i gefnogi bwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.
- Ystyried cyfleoedd, lle bo'n briodol, i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i gyd-destunau newydd. Er enghraifft, drwy addasu ffurf cerameg ar raddfa fach at ddyluniad ar gyfer celf tir.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau o'r cyflwyniad, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, yn cyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, hyddysg ac mewn trefn sydd yn hawdd i'w ddilyn.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid talu sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut gallai ddenu sylw cynulleidfa. Er enghraifft, gellid defnyddio deunyddiau gweledol a thestun i ddangos sut gellid datblygu syniad dechreuol ar gyfer darn o gelfyddyd gain yn boster ar gyfer gŵyl gerdd.

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)

**Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:**

- **Lluniadu**
- **Gosod**
- **Cyfryngau lens a golau seiliedig**
- **Cyfryngau cymysg**
- **Celf y tir**
- **Argraffu**
- **Peintio**
- **Cerflunwaith.**

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

Diffinnir ***Celfyddyd Gain*** yma fel yr agwedd honno ar gelf, crefft a dylunio lle mae gwaith yn cael ei ddatblygu'n bennaf at bwrpasau esthetig, deallusol neu gysyniadol yn hytrach na rhai gweithredol ac ymarferol.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith artistiaid cain hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau celfyddyd gain fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hun. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis megis: peintio (amrywiol gyfryngau); lluniadu (cyfryngau amrywiol); argraffu (e.e. printio sgrin; ysgythriad; acwatint; lithograffi; printio bloc; stensiliau; cerfio; modelu; adeiladu; mosaig; symudion; celf amgylcheddol; graffito; cyfryngau cinetig; cyfryngau golau-seiliedig; cyfryngau digidol; cyfryngau cymysg. Maes astudio eang a datblygol yw hwn sydd hefyd yn cynnwys celfyddyd perfformio a chysyniadol, yn ogystal ag agweddau ar wneud printiau, ffotograffiaeth a ffilm.

Mae *Celfyddyd Gain* yn cynnig dewis o gyfryngau a phrosesau traddodiadol a digidol ac yn ymwneud â defnydd mynegiannol o amrywiaeth arbennig o eang o dechnegau, sgiliau a defnyddiau, gan gynnwys rhai y gellir eu hailgylchu.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer celfyddyd gain cyfoes, gall myfyrwyr archwilio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd fel ffilm, cyhoeddi, gweinyddu'r celfyddydau, amgueddfeydd ac orielau, celfyddydau cymunedol, ac addysgu, a phob galwedigaeth sy'n gysylltiedig â'r teitl hwn.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Celfyddyd Gain* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol ar gelfyddyd gain hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, cerddoriaeth, dawns, drama, dylunio cynnyrch a chyfryngau wedi'u cyhoeddi a lle celfyddyd gain yn y rhain yn eu cymdeithas eu hunain ac mewn cymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan artistiaid cain a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaethau rhwng cerflunwaith, cerameg, gwneud printiau a ffotograffiaeth celfyddyd gain a chymhwyso'r ffurfiau celf, crefft a dylunio hyn yn fwy ymarferol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau a phrosesau celfyddyd gain priodol o eang, yn unigol a chyda'i gilydd. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o arferion celfyddyd gain, gan gynnwys lluniadu fel diben ynddo'i hun. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft, wrth fireinio manylion neu wrth ddefnyddio lliw a thôn cywir neu wedi'i orliwio.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth gyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, yn enwedig lluniadu, gan gynnwys, er enghraifft, astudiaethau llinell, lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio, taflenni astudio a/neu ar lechi cyfrifiadurol neu ddulliau eraill, i gefnogi bwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid talu sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut gallai ddenu sylw cynulleidfa. Er enghraifft, gellir defnyddio lluniadau, ffotograffau a nodiadau rhagarweiniol i ddangos sut gellid datblygu dilyniant o ddelweddau o flodyn o'r cyfnod blagur i'r cyfnod o bydru terfynol fel triptych wedi'i beintio.

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig)

**Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:**

- **Hysbysebu**
- **Graffeg cyfathrebu**
- **Dylunio printiau**
- **Darlunio**
- **Dylunio rhyngweithiol (yn cynnwys y we, apps a gêm)**
- **Amlgyfrwng**
- **Dylunio pecyn**
- **Arwyddion**
- **Teipograffeg.**

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

Diffinnir ***Cyfathrebu Graffig*** yma fel y broses o greu deunydd sy'n weledol yn bennaf i gyfleu gwybodaeth, syniadau ac emosiynau trwy ddefnyddio elfennau graffig megis symbolau, diagramau, lluniadau, ffotograffau, mapiau a theipograffeg. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sy'n datblygu, gan ymgorffori amrywiaeth o ddisgyblaethau perthnasol a defnyddio sgiliau traddodiadol, fel caligraffi a llythyru wedi'i greu â llaw, ochr yn ochr â thechnolegau digidol arloesol. Mae'r ffiniau rhwng prosesau graffigol perthynol yn mynd yn fwyfwy aneglur. Mae'r canlynol yn awgrymu'r hyn y gellid ymdrin ag ef yn rhan o'r teitl hwn: dylunio drwy gymorth cyfrifiadur; dylunio gwe; dylunio apps a gemau; ffurfiau llythrennau; teipograffeg; lluniadu; darlunio technegol; darlunio ar gyfer llyfrau; dylunio printiau; ffilmiau adnabod sianeli teledu *(TV idents)*; dilyniannau teitl ar gyfer ffilmiau; ffotograffiaeth, a dylunio pecynnau.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith dylunwyr graffig hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau cyfathrebu graffig fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hun. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis. Gall canlyniadau fod yn ddau ddimensiwn neu'n dri dimensiwn neu'n seiliedig ar amser, a gallant fod ar ffurf posteri, taflenni, crysau T, cloriau CD/DVD, cloriau llyfrau, tudalennau cylchgrawn, calendrau, stampiau, pecynnu, deunyddiau cyhoeddusrwydd, lifrai cerbyd, byrddau poster, hysbysebu, logos, brandio, hunaniaeth gorfforaethol, clyweledol (e.e. seiliedig ar amser a graffigau animeiddiedig), a dylunio arddangosfeydd a phwyntiau talu tri dimensiwn.

Bydd dylunwyr yn aml yn cyfuno delweddau a ffurfiau llythrennau / teip i gyfleu neges cleient i gynulleidfa ac i archwilio posibiliadau creadigol cyfuno geiriau a delweddau. Yn ogystal â darganfod neu greu ffurfiau llythrennau a delweddau priodol, tasg y dylunydd yw penderfynu ar y cydbwysedd gorau rhyngddynt.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd megis darlunio cyffredinol, teipograffeg, hunaniaeth gorfforaethol ac ymgynghori ar frandio, graffeg gwybodaeth, delweddaeth wedi'i chynhyrchu gan gyfrifiadur, animeiddio 2D, modelu 3D, dylunio ar gyfer dysgu, technoleg print, dylunio gwe, a gemau teledu, fideo a chyfrifiadur.

© WJEC CBAC Ltd.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Cyfathrebu Graffig* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes ac archwilio ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r meysydd astudio o'u dewis yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan gyfathrebwyr graffig a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol, strategaethau marchnata, ymgyrchoedd hyrwyddo, a dylunio ar gyfer print a'r we.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith cyfathrebwyr graffig perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau cyfathrebu graffig a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gydag amrywiaeth briodol o eang o ddulliau a phrosesau cyfathrebu graffig, gan gynnwys trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o arferion cyfathrebu graffig, gan gynnwys lluniadu fel dull o archwilio a chyfleu syniadau. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio manylion, fel dewis ffontiau, cysylltiad teipograffeg â delweddau ac adnabod prosesau reprograffig addas.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis lluniadau gosodiad, brasluniau bawd, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol ac yn eu cefnogi.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr, yn cyflawni unrhyw friff dylunio, ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gellid defnyddio PowerPoint i gyflwyno gwahanol syniadau, gan ddangos gosodiadau, cyfresi lliw a ffurfdeipiau posibl yn ogystal â sut y gallai byrddau poster mawr edrych mewn lleoliadau penodol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau)

**Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:**

- **Tecstilau wedi'u hadeiladu**
- **Tecstilau digidol**
- **Ffabrigau wedi'u llifo**
- **Ffabrigau wedi'u hargraffu**
- **Dylunio ffasiwn**
- **Tecstilau wedi'u gosod**
- **Dodrefnu meddal**
- **Tecstilau wedi'u brodio a/neu wedi'u haddurno.**

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

Diffinnir ***Dylunio Tecstilau*** yma fel creu dyluniadau a chynhyrchion ar gyfer ffabrigau wedi'u gwehyddu, eu gwau, eu pwytho neu eu printio ac mae gofyn cael dealltwriaeth o ffibrau, edafedd a ffabrigau.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol, megis gwaith dylunwyr a gwneuthurwyr tecstilau hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau dylunio tecstilau fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Mae cysylltiadau agos rhwng dulliau adeiladu, addurno, printio, gwnïo a llifo ym maes dylunio tecstilau a gyda dylunio ffasiwn a thecstilau gosodedig. Gellid ystyried cyfleoedd rhyngddisgyblaethol yn ogystal â datblygu arbenigaeth mewn un maes. Dylai myfyrwyr ddangos y gallu i weithio'n greadigol â phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis, er enghraifft: gwehyddu, printio arwyneb (bloc, sgrin neu ddigidol), gwneud patrymau, torri patrymau, brodwaith (â pheiriant neu â llaw), gwau, batic, cerflunwaith meddal, appliqué a collage.

Mae ***Dylunio Tecstilau*** yn cwmpasu amrediad eang iawn o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, yn eu plith ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu a nifer cynyddol o ddulliau rhyngddisgyblaethol. Mae'r dewis yn cynyddu wrth i ddefnyddiau a thechnolegau newydd gael eu datblygu, er enghraifft, ym maes 'tecstilau deallus'.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau fel y canlynol: dylunydd tecstilau, prynwr tecstilau, dylunydd ffasiwn, proffwydi ffasiwn, dylunydd gweuwaith, hetiwr, newyddiadurwr ffasiwn, ymgynghorydd lliw, dylunydd gwisgoedd theatraidd, darlunydd ffasiwn, torrwr patrymau a dylunydd-gwneuthurwr.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Dylunio Tecstilau* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, celfyddyd gain a chrefftau megis gemwaith.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ddylunwyr tecstil a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol, diwylliannol, esthetig ac ymarferol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ym maes dylunio tecstilau a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys y perthnasoedd rhwng ystyriaethau swyddogaethol, esthetig, arddulliol a thechnolegol a sut y caiff y rhain eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda dulliau a phrosesau dylunio tecstilau priodol o eang, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o ddylunio tecstilau, gan gynnwys lluniadu. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio manylion, fel dylunio a chynhyrchu patrwm arwyneb neu nodweddion addurniadol.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis brasluniau, darluniau, astudiaethau brodwaith braich rydd, darnau prawf a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, dyluniadau gwisgoedd ar gyfer perfformiad ysgol i'w gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, llenni wedi'u sgrin-brintio ar gyfer ystafell wely plentyn bach.

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn)

**Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:**

- **Dylunio pensaernïol**
- **Dylunio mewnol**
- **Dylunio cynnyrch**
- **Dylunio ar gyfer arddangosfeydd**
- **Dylunio amgylcheddol/tirlun**
- **Cerflunwaith**
- **Dylunio ar gyfer y theatr, ffilm a'r teledu**
- **Gemwaith ac addurniadau corff**
- **Cerameg.**

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

Diffinnir ***Dylunio Tri Dimensiwn*** yma fel dylunio, prototeipio, modelu neu wneud cynhyrchion traul, gwrthrychau ac amgylcheddau sydd yn anad dim yn swyddogaethol ac esthetig. Gallai hyn gynnwys ffurfiau cerfluniol safle-benodol sy’n cael eu gwneud i fodloni briff dylunio.

Bwriedir dyluniadau tri dimensiwn ar gyfer masgynhyrchu neu swp-gynhyrchu yn aml. Anaml y bydd y graddfeydd cynhyrchu hyn yn bosibl mewn ysgol neu goleg bach felly bydd y gwaith fel arfer yn ymwneud â datrys problemau ar lefel fwy unigol. Gellir meithrin sgiliau trin a thrafod a dealltwriaeth o gynhyrchu drwy wneud defnydd priodol o offer a defnyddiau. Gellir meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth trwy greu ymwybyddiaeth o ystyriaethau economaidd, cynllunio ar gyfer cynhyrchu, cyflwyno, cryfder adeileddau ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Rhaid i fyfyrwyr sy’n ymgymryd â’r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith dylunwyr a gwneuthurwyr tri dimensiwn hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau dylunio tri dimensiwn fel y bo’n briodol i’w gwaith eu hunain. Dylai’r myfyrwyr amlygu’r gallu i weithio’n greadigol â phrosesau, technegau a defnyddiau, gan gynnwys rhai y gellir eu hailgylchu, sy’n briodol i’r maes astudio o’u dewis megis: dylunio drwy gymorth cyfrifiadur; gwneud modelau; prototeipio; llunio a chydosod. Mae'n hanfodol cael dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ffurf a swyddogaeth.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy’n gweithio mewn galwedigaethau megis dylunydd diwydiannol/cynhyrchion, dylunydd theatr, dylunydd teledu a ffilm, dylunydd arddangosfeydd, dylunydd defnyddiau pacio/pecynnau, dylunydd dodrefn, dylunydd mewnol, ceramegydd, gwneuthurwr modelau pensaernïol, gof arian a gemydd.

© WJEC CBAC Ltd.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Dylunio Tri Dimensiwn* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ddylunio tri dimensiwn hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, gwaith crefftwyr sy'n gweithio gyda phren neu fetel.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ddylunwyr tri dimensiwn a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tri dimensiwn perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ym maes dylunio tri dimensiwn a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys y perthnasoedd rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac esthetig a sut y caiff y rhain eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda defnyddiau a phrosesau dylunio tri dimensiwn priodol o eang, gan gynnwys pren, clai, plastig, metel, cerdyn a phapur a, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o ddylunio tri dimensiwn. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio manylion, agweddau ar ymarferoldeb, ac ystyriaethau ergonomaidd ac esthetig.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis brasluniau, diagramau, lluniadau technegol a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, cynhyrchu dyluniadau a model ar gyfer cyfarpar chwarae i iard chwarae plant mewn parc lleol neu lecyn agored.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gallai myfyrwyr wneud model wrth raddfa o set ffilm neu theatr neu ddarn unigol o emwaith.

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)

**Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:**

- **Ffotograffiaeth ddogfennol**
- **Ffotonewyddiaduraeth**
- **Ffotograffiaeth stiwdio**
- **Ffotograffiaeth lleoliad**
- **Delweddaeth arbrofol**
- **Gosod**
- **Delwedd symudol: ffilm, fideo ac animeiddio.**

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

Diffinnir ***Ffotograffiaeth*** yma fel yr arfer o greu delweddau statig neu symudol hirbarhaol trwy gofnodi golau â defnyddiau sensitif i olau fel ffilm ffotograffig neu'n ddigidol trwy ddefnyddio synhwyrydd delweddau. Mae'n cynnwys ffotograffiaeth lonydd a chyfryngau lens-seiliedig eraill.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith ffotograffwyr hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau ffotograffiaeth fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Defnyddir ffotograffiaeth a chyfryngau lens a golau seiliedig yn aml i ddogfennu a chofnodi, ac fel ffynhonnell gwybodaeth weledol ar gyfer meysydd astudio eraill. O fewn adran draddodiadol, rhaid darparu cyfarpar penodol ac arbenigol megis camerâu, helaethyddion a sychyddion, a gall gynnwys defnyddio cemegion a phrosesau ystafell dywyll. Fel arall, neu'n ychwanegol, gall ofyn am galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol neu'r hyn y cyfeirir ato yn fwy cyffredin heddiw fel yr 'ystafell dywyll ddigidol'. Rhaid i fyfyrwyr ddangos y gallu i weithio'n greadigol â phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis, er enghraifft: ffotogramau; camerâu pindwll; prosesau ffilm (cemegol); prosesau digidol; ffotograffiaeth egwyl-amser; animeiddiad stop-ffrâm; gosod; ffilm; fideo; animeiddio; montage ffotograffig; trin delweddau'n ddigidol. Gall y gwaith terfynol fod yn seiliedig ar sgrin neu brint, a chynnwys delweddau llonydd neu symudol.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd fel hysbysebu, ffotonewyddiaduraeth, ffasiwn, bywyd gwyllt, ffotograffiaeth ddiwydiannol a thechnegol, stiwdios ffotograffiaeth ar y stryd fawr, a ffilm, teledu a fideo.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Ffotograffiaeth* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ffotograffiaeth a delweddaeth lens-seiliedig hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, gwaith ffotonewyddiadurwyr a gwneuthurwyr ffilmiau.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau ac artistiaid fideo a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau ac artistiaid fideo perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ffotograffig, lens-seiliedig a golau-seiliedig a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys sut y caiff genres gwahanol eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau ffotograffig priodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau o gyfryngau, gan wneud defnydd rheoledig o olau, cyflymder caead, agorfa, lensiau, hidlyddion a, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o arferion cyfathrebu graffig, gan gynnwys lluniadu fel dull o archwilio a chyfleu syniadau. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio prosesau digidol a/neu gemegol, cyfansoddiad, neu ddefnyddio goleuo.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy ffotograffiaeth ac unrhyw ddulliau addas eraill, megis brasluniau, diagramau, byrddau stori, gosodiadau tudalen a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar ddilyniant y gwaith er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, caffael dealltwriaeth ddyfnach ac i egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, gallai myfyrwyr ail-ddehongli paentiadau bywyd llonydd o 'Oes Aur' yr Iseldiroedd yn yr 17eg ganrif trwy osod testunau i fyny yn y stiwdio sy'n cyfateb iddynt ond sy'n berthnasol i'r 21ain ganrif.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gallai myfyrwyr gynhyrchu sioe sleidiau (ynghyd â thestun priodol) yn dogfennu delweddau o rannau o'r amgylchedd lleol sydd wedi'u hesgeuluso fel ffordd o ddechrau ymgyrch i wella'r gymuned.

© WJEC CBAC Ltd.

## Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol)

**Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:**

- **Artistiaid, crefftwyr a dylunwyr**
- **Genres**
- **Symudiadau**
- **Themâu, cysyniadau a syniadau mewn celf, crefft a dylunio**
- **Celf, crefft a dylunio cyfoes**
- **Diwylliant poblogaidd**
- **Y ffurf ddynol**
- **Bywyd llonydd**
- **Gwrthrychau wedi'u dylunio**
- **Tirlun**
- **Ffurfiau naturiol.**

Ni chyfyngir y gwaith i un maes astudio.

Diffinnir ***Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol*** yma fel dadansoddi'n feirniadol, dehongli a gwerthuso'n fyfyriol, o safbwynt cyfoes, waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o'n cyfnod ni a chyfnodau eraill, ac o'n lle ni a lleoedd eraill. Dylid pwysleisio bod y dewis hwn yn wahanol i ymagweddau traddodiadol at hanes celf. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn derm arall am Hanes Celf a Chrefft. Mae gofyn i'r myfyrwyr ddarparu tystiolaeth o gyflawniad ar draws y pedwar amcan asesu.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn ddangos y gallu i ddadansoddi'n feirniadol a dehongli gweithiau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, gan gymryd i ystyriaeth wahanol gyd-destunau (e.e. hanesyddol, diwylliannol, cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol) eu cynhyrchu, er mwyn deall ystyron, pwrpasau, perthnasoedd a dylanwadau. Dylai myfyrwyr ddewis dulliau a chyfryngau priodol i gyfleu eu hymatebion ac i ddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu i weithio'n greadigol gyda'r topigau o'u dewis trwy ymdrin â rhai, neu'r rhan fwyaf, o'r agweddau canlynol:

- deall arteffactau a delweddau fel cynhyrchion neilltuol cymdeithas mewn cyfnod a lle penodol;
- ymchwilio i artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, mudiadau, arddulliau ac enghreifftiau o waith;
- gan astudio cyd-destunau a chyfeiriadau cymdeithasol, hanesyddol, gwleidyddol a diwylliannol;
- ymweld ag amgueddfeydd, orielau, stiwdios, unigolion;
- ymarfer barn feirniadol;
- astudio cyfnodau neu faterion hanesyddol penodol.

Dylai'r teitl gynnig amrediad eang o brofiadau dysgu deallusol ac ymarferol drwy strategaethau bywiog a chreadigol i ddatblygu a chyflwyno ymatebion personol, ymarferol, beirniadol a chyd-destunol. Gall y rhain gynnwys amrywiaeth fawr o ganlyniadau ymarferol anodedig sy'n amlygu dealltwriaeth o, er enghraifft, waith artist neu ddylunydd penodol, mudiad neu thema. Gallai canlyniadau o'r fath gynnwys cyflwyniadau clyweled, cyfweliadau (go iawn a dychmygol) gydag artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr sy'n cael eu hadysgrifio a'u darlunio, gwaith ymarferol wedi'i ysbrydoli'n uniongyrchol gan artist neilltuol a'i ail-ddehongli, neu feirniadaeth ar arddangosfa yn sgil ymweliad ag oriel neu stiwdio.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau megis curaduriaid neu gadwraethwyr mewn orielau, amgueddfeydd a chanolfannau'r celfyddydau, yn ogystal â newyddiadurwyr, athrawon ac academyddion.

© WJEC CBAC Ltd.

**Fel rhan o'u gwaith *Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith, (nid gwaith artistiaid cain yn unig), a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth o genres, mudiadau, cyd-destunau, arddulliau ac arferion celf, crefft a dylunio a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

**AA2**

- Dethol ac archwilio'n bwrpasol amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau, testunau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, symudiadau ac arddulliau a'r ffyrdd mae syniadau, agweddau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau. Pryd bynnag y bo modd, dylid ymweld â ffynonellau cynradd megis orielau, amgueddfeydd, stiwdios a gweithdai artistiaid, crefftwyr a dylunwyr i ddod wyneb yn wyneb ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau creadigol a'r bobl sydd wedi'u gwneud.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o'r topigau a ddewiswyd. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio prosesau i gynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy ffotograffiaeth ac unrhyw ddulliau addas eraill, megis lluniadu, peintio, nodiadau ysgrifenedig a recordiadau sain a/neu fideo sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'n effeithiol yr hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron. Er enghraifft, darganfod ac ymweld â'r lleoedd y mae arlunydd tirluniau lleol wedi mynd iddynt i beintio ei luniau ac ail-ddehongli ei waith trwy weithio o ddelweddau (brasluniau a ffotograffau) sy'n cael eu gwneud yn yr un lleoedd.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, gwneud astudiaeth o hunanbortreadau artistiaid dethol o Rembrandt hyd heddiw gan ystyried Picasso, Kahlo, Warhol a Hockney, a dangos sut y gellid bod wedi defnyddio'r rhain i hyrwyddo eu hunain. Creu delwedd ohonoch chi eich hun (lluniadu, peintio, ffotograff, 'hunlun', ayb.) a chanddo bwrpas tebyg ac yn dangos eich diddordebau.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid talu sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut gallai ddenu sylw cynulleidfa. Er enghraifft, ysgrifennu a darlunio llyfr ar anifeiliaid mewn celf i blant ifanc.

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Yr un pedwar amcan asesu sy'n berthnasol i'r ddwy uned. Mae'r un pwysoli i bob amcan asesu.

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud y canlynol:

**AA1**
Datblygu syniadau drwy ymchwiliadau, gan ddangos dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau.

**AA2**
Mireinio gwaith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol.

**AA3**
Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

**AA4**
Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol.

Yn y tabl isod dangosir y pwysoli a'r marciau sydd ar gael am bob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster yn gyffredinol.

| **Uned** | **AA1**<br>**Pwysoli %**<br>**Marciau** | **AA2**<br>**Pwysoli %**<br>**Marciau** | **AA3**<br>**Pwysoli %**<br>**Marciau** | **AA4**<br>**Pwysoli %**<br>**Marciau** |
|---|---|---|---|---|
| **Uned 1:**<br>**Portffolio**<br>60% o'r TGAU<br>120 marc | 15%<br>30 marc | 15%<br>30 marc | 15%<br>30 marc | 15%<br>30 marc |
| **Uned 2:**<br>**Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**<br>40% o'r TGAU<br>80 marc | 10%<br>20 marc | 10%<br>20 marc | 10%<br>20 marc | 10%<br>20 marc |
| **Cyfanswm Pwysoli**<br>**Cyfanswm y Marciau (200)** | **25%**<br>**50 marc** | **25%**<br>**50 marc** | **25%**<br>**50 marc** | **25%**<br>**50 marc** |

Bydd **gradd gyffredinol y cymhwyster** yn cael ei gyfrifo drwy adio marciau Unedau 1 a 2 at ei gilydd i roi cyfanswm marciau**.** Yna caiff y marc hwn ei drosi'n radd cymhwyster TGAU cyffredinol gan ddefnyddio'r ffiniau graddau cymhwyster TGAU a bennwyd ar gyfer y gyfres arholiadau berthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

Yn y cymhwyster hwn mae gofyn i ymgeiswyr ddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a restrir (gweler Adran 2) gan ddefnyddio sgiliau'n ymarferol i wireddu eu bwriadau personol. Seilir asesiad y broses hon ar fesur gwaith dwys yn erbyn yr amcanion asesu.

Defnyddir yr amcanion asesu fel ffordd o asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r myfyriwr drwy fesur i ba raddau mae'r dystiolaeth (yng ngwaith y Portffolio neu'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol) yn mynd i'r afael â phob amcan. Yn y fanyleb hon mae'r amcanion asesu wedi'u hestyn yn amrywiaeth o ddisgrifwyr neu gynlluniau marcio (gweler Atodiad B) er mwyn mesur gallu neu berfformiad yn fanwl gywir. Mae'r unedau i gyd yn addas i'r ystod gallu lawn a gellir cyrraedd graddau A*-G ar gyfer y dyfarniad pwnc.

## 3.2 Trefniadau asesu

**Uned 1: Portffolio**
**60% o'r cymhwyster**

Mae **Uned 1** yn cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Bydd yn cael ei marcio allan o 120: bydd marc allan o 30 am bob un o'r pedwar amcan asesu.

- Y ganolfan sydd i benderfynu ar y dyddiad cwblhau mewnol. Mae'n rhaid i'r ganolfan gymryd ystyriaeth o'r amser sydd ei angen i asesu'n fewnol ac i gyflwyno marciau i CBAC erbyn y terfyn amser ym mis Mai. Argymhellir bod canolfannau'n gosod terfynau amser mewnol ar gyfer cwblhau Uned 1 cyn cychwyn ar yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol ym mis Ionawr. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i farcio ac yn sicrhau bod ymgeiswyr yn canolbwyntio'n llawn ar yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.
- Mae'n bwysig bod canolfannau'n sicrhau bod amser ar gael i'r ymgeiswyr a'r athrawon ddewis yr aseiniadau, themâu a/neu friffiau ar gyfer Uned 1 er mwyn sicrhau eu bod yn caniatáu i ymgeiswyr fodloni'r amcanion asesu. Dylai'r athro felly roi cyngor i'r ymgeisydd ar osod y dasg, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan, a darparu ar gyfer diddordebau a gallu'r ymgeisydd, a hefyd i sicrhau bod lefel y galw'n briodol. Cyfrifoldeb yr athro yw sicrhau bod tasgau priodol yn cael eu gosod. Dylent hefyd alluogi'r ymgeisydd i 'gyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol' (AA4).
- Gall aseiniadau, tasgau, projectau a themâu amrywio o ran hyd, o fod yn archwiliadau ymarferol byr i ymchwiliadau neu ddadansoddiadau estynedig. Bydd y rhan fwyaf o raglenni portffolio yn cael eu rhoi at ei gilydd gan yr athro fel cymysgedd cydlynol o brofiadau sy'n amrywio o ran eu hyd. Mae rhai ymgeiswyr yn ei chael yn anodd ymdrin â phrojectau estynedig, ac mae'n well ganddynt gael targedau tynn a therfyn amser cyflwyno penodol. Bydd eraill yn gweithio'n dda yn ôl briffiau penagored heb osod paramedrau. Mae'n bwysig i'r ymgeiswyr gael profiadau artistig-creadigol cyflawn sy'n amrywio o ran eu cwmpas, eu hyd a'u dwysedd yn ystod y rhaglen portffolio. Os oes amheuaeth ynghylch aseiniadau, themâu a/neu friffiau, cyfeiriwch at yr adnoddau a'r arweiniad ar y wefan.
- Dylai canolfannau anelu at sicrhau bod yr holl waith Portffolio wedi'i orffen cyn cychwyn ar yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (h.y. 2 Ionawr pob blwyddyn) er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gael i ganolbwyntio ar yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol
## 40% o'r cymhwyster

Mae **Uned 2** yn cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Bydd yn cael ei marcio allan o 80. Bydd marc allan o 20 am bob un o'r pedwar amcan asesu.

- Anfonir deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i'r canolfannau cyn dyddiad eu rhyddhau ar **2 Ionawr** a dylid eu rhyddhau i'r ymgeiswyr o **2 Ionawr** (ym mlwyddyn olaf y cwrs). **Ni ddylid rhyddhau** deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i'r ymgeiswyr **cyn 2 Ionawr.**
- Ymhlith deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol fydd cyfres o bymtheg dewis o aseiniad, yn cynnwys pum thema eang, pum ysgogiad gweledol a phum briff ysgrifenedig sydd i'w cyflwyno i'r myfyriwr ar ddechrau'r cyfnod astudiaeth baratoadol.
- Mae gofyn i'r myfyriwr ddewis **un** o'r pymtheg aseiniad fel man cychwyn i ddatblygu eu hymateb annibynnol creadigol eu hunain ohono.
- Mae'r ymatebion hyn yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod astudiaeth baratoadol. Dylai'r ymatebion fod ar ffurf ymchwil ac astudiaethau cefnogi sy'n gyd-destunol ac ymarferol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn wrth wireddu'r syniadau yn y 10 awr o waith dwys a manwl.
- Diffinnir **dechrau'r** astudiaeth baratoadol fel dyddiad cyflwyno deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i'r myfyriwr. Gall y cyfnod gwaith dwys a manwl gychwyn ar **2 Ionawr** neu wedi hynny.
- Y ganolfan sydd i benderfynu ar hyd y cyfnod ymchwil ac astudiaethau paratoadol. Yn dilyn y cyfnod ymchwil ac astudiaethau paratoadol hwn, dyrennir cyfnod o **10 awr o waith dwys a manwl** i'r myfyrwyr i wireddu eu hymateb heb gymorth ac mewn amodau dan oruchwyliaeth.
- Bydd y cyfnod astudiaeth baratoadol yn **dod i ben** pan ddechreuir ar y gwaith dwys a manwl.
- Y ganolfan sydd i benderfynu ar ddyddiadau dechrau a gorffen y cyfnodau astudiaeth paratoadol a'r 10 awr o waith dwys a manwl **gan gymryd ystyriaeth o'r ffaith fod angen cyflwyno holl farciau'r asesiad mewnol i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai.**
- Er mwyn cyfleu arfer creadigol a chynnig yr un mynediad a phrofiadau i'r myfyrwyr ar draws disgyblaethau a themâu perthynol, mae'n hanfodol caniatáu i'r myfyrwyr ymgymryd â gwaith paratoi y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, gall gwaith paratoi fod ar ffurf sesiynau tynnu lluniau neu sesiynau ffilmio y tu allan, neu gofnodi ffurfiau ymchwil eraill ar leoliad (braslunio, creu peintiadau ymchwiliol neu weithiau eraill megis astudiaethau tirlun/tirlun dinas, peintiadau *plein air* neu arbrofi â chelf tir, ymweliadau ymchwiliol annibynnol ag orielau i edrych ar waith dylunio graffig, tecstilau neu 3D sefydlog.) Gall y gwaith fod yn ddigidol, 3D, llyfr braslunio neu'n seiliedig ar bortffolio, neu'n unrhyw gyfuniad o'r rhain.
- **Ni** chaniateir cyrchu'r rhyngrwyd ac **ni** chaniateir i ymgeiswyr ddod â'u dyfeisiau electronig, e.e. gliniaduron, llechi cyfrifiadurol neu ffonau symudol, i'r man sy'n cael ei oruchwylio.
- Rhaid i athrawon fonitro a dilysu'r gwaith paratoi drwy gydol y cyfnod paratoi a chyn cychwyn ar y cyfnod o waith dwys a manwl er mwyn iddyn nhw allu gwirio mai gwaith y myfyriwr ei hun yw'r gwaith a baratowyd heb unrhyw gymorth.
- Gall athrawon roi arweiniad i ymgeiswyr yn ystod cyfnod yr astudiaeth baratoadol ac ymchwil, ond dylid cyfyngu hyn i:
  - ddarpariaeth ac addasrwydd ffynonellau a defnyddiau
  - atal llên-ladrad
  - sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnal yn unol â gofynion a gweithdrefnau'r fanyleb, yn eu plith faterion iechyd a diogelwch.
- Ni chaniateir i ymgeiswyr weld deunyddiau paratoi unrhyw fyfyriwr arall.

© WJEC CBAC Ltd.

## Amodau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, Uned 2

Mae'n hanfodol i ymatebion yr ymgeiswyr fod yn bersonol ac yn annibynnol.

- Ar ôl i'r cyfnod 10 awr o waith dwys a manwl gychwyn, ni ddylai myfyrwyr gael gweld **naill ai** eu gwaith ar gyfer yr astudiaeth baratoadol ac ymchwil **na** gwaith a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod o waith dwys a manwl.
- Rhaid i'r ganolfan gadw gwaith yr holl ymgeiswyr yn ddiogel ar ddiwedd pob sesiwn o waith dwys a manwl.
- Cyfrifoldeb y ganolfan yw monitro sesiynau'r cyfnod o waith dwys a manwl 10 awr er mwyn sicrhau nad oes gwaith ychwanegol yn cael ei gymryd i mewn na'i gymryd i ffwrdd o'r gweithle penodol.
- Ar ôl i'r cyfnod 10 awr o waith dwys a manwl ddod i ben, ni fydd myfyrwyr yn cael gwneud mwy o waith **naill ai** ar yr astudiaeth baratoadol ac ymchwil **nac** ar y gwaith a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod o waith dwys a manwl.

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk <http://www.jcq.org.uk>) yn rhoi amodau ar gyfer y cyfnod dwys dan oruchwyliaeth a threfniadau arholiadau eraill. Y rheoliadau hyn sy'n sail i'r arfer gweithredol y mae angen ei ddilyn yn ystod y sesiynau asesu. Pennaeth yr ysgol neu'r coleg sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr oruchwyliaeth a'r dilysu'n cael eu cynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) a'r hyn a nodir yn y fanyleb hon.

- Rhaid cynnal y sesiynau o waith dwys a manwl dan amodau a fydd yn rhoi cyfle i bob ymgeisydd i gyflawni eu tasgau ac i gyfleu gwir lefel eu cyflawniad yn y pynciau dan sylw.
- Dylai'r ganolfan ddarparu'r defnyddiau, cyfryngau dylunio, offer a thechnoleg.
- Rhaid i bennaeth y ganolfan neu'r swyddog arholiadau sicrhau bod o leiaf un goruchwyliwr wedi'i benodi am bob grŵp o 20 neu lai o ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'r sesiynau o waith dwys a manwl a bod y sesiynau hyn yn digwydd dan amodau ffurfiol.
- Fel arfer, athro celf a dylunio fydd yn goruchwylio sesiynau'r cyfnod dwys a manwl dan oruchwyliaeth. Cydnabyddir y gall fod gofyn i'r athro celf a dylunio roi cymorth technegol i ymgeisydd unigol, er enghraifft, i sicrhau y bodlonir gofynion iechyd a diogelwch ac ar gyfer tasgau fel pacio a thanio odynau, cynnal protocolau gweithdy a gosod cyfarpar technegol arbenigol. O dan yr amgylchiadau hyn, gall goruchwylwyr ychwanegol gael eu defnyddio yn ôl ewyllys y swyddog arholiadau er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael eu goruchwylio trwy'r amser.
- Ar ddechrau'r cyfnod o waith dwys a manwl dylai'r ymgeiswyr fynd ag unrhyw astudiaethau ategol, dyddlyfrau gwaith, nodiadau neu frasluniau paratoadol gyda nhw i'r ardal weithio. Byddant wedi cynhyrchu'r rhain yn barod i'w cyflwyno i'w hasesu ynghyd â'r gwaith a gwblhawyd yn ystod cyfnod y prawf wedi'i amseru.
- Rhaid i'r goruchwyliwr nodi'n glir wrth yr ymgeiswyr sy'n ymgymryd â sesiynau o waith dwys a manwl mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yn unig ddylai'r gwaith a gynhyrchir yn ystod y sesiynau hyn fod. Ni chaniateir iddynt gyfathrebu mewn unrhyw ffordd, gofyn am gymorth gan, na rhoi cymorth i unrhyw ymgeisydd arall yn ystod yr amser maent yn yr ystafell arholiad.
- Rhaid cynnal sesiynau'r cyfnod dwys a manwl dan amodau arholiad ffurfiol ac mewn tawelwch.

© WJEC CBAC Ltd.

## Gwaith sy'n cael ei golli neu ei ddifrodi

Fel rheol, bydd gwaith sy'n cael ei golli neu ei ddifrodi yn gymwys ar gyfer ystyriaethau arbennig o dan yr amgylchiadau a amlinellir isod:

- mae'r ymgeisydd wedi cwblhau o leiaf un darn o waith ac wedi ymdrin â'r holl amcanion asesu o leiaf unwaith
- ni chafodd y gwaith ei golli neu ei ddifrodi o ganlyniad i esgeulustod yr ymgeisydd
- ac mae'r ganolfan yn gallu cadarnhau i'r gwaith gael ei gwblhau neu ei rannol gwblhau ac iddo gael ei fonitro tra oedd yn cael ei wneud.

Dylid cyfeirio at ddogfen y CGC, *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* - http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

Dylid defnyddio Ffurflen 15 JCQ/LCW sydd ar gael yn http://www.jcq.org.uk/exams-office/forms i roi gwybod i CBAC am y golled. Dylai'r marc sydd wedi'i amcangyfrif gael ei gyflwyno i'r safonwr a CBAC yn y ffordd arferol erbyn y terfyn amser cyflwyno marciau. Dylid seilio'r amcangyfrif ar amcangyfrif yr athro o waith y mae wedi'i weld. Peidiwch â cheisio amcangyfrif marciau ar gyfer gwaith sydd heb ei weld.

## Ffurfiau cyflwyno a mathau o dystiolaeth asesu

## Portffolio ac Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol

Gall myfyrwyr ddefnyddio amrywiol ddulliau i gofnodi eu gwaith ar ffurfiau sy'n addas i'r gweithgareddau a gyflawnwyd. Er enghraifft, gallai dogfennu gynnwys defnyddio llyfrau braslunio, technolegau digidol/newydd, a chasgliadau rhydd o waith a/neu daflenni dylunio. Gellir cofnodi'r dystiolaeth ar ffurfiau gweledol a ffurfiau eraill fel y bo'n briodol. Gall y broses ofyn am ymatebion tri dimensiwn a chynnwys, er enghraifft, cynhyrchu maquettes, neu os yw'r myfyriwr yn gweithio gyda cherameg, yna gall gynhyrchu darnau prawf sy'n arwain at y gwaith terfynol. Gallai recordio gosodiad dros dro neu weithiau penodol i safle fod ymhlith y ddogfennaeth. Gall fod ar ffurf delweddau ffotograffig/symudol.

Mae'r enghreifftiau hyn yn cael eu crybwyll er mwyn enghreifftio lled yr ymatebion sydd ar gael i fyfyrwyr, ni fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr nac yn benodol. Yn wir, nid yw graddfa'r gwaith yn cael ei phennu o gwbl, nac ychwaith yr amrywiaeth o gyfryngau, defnyddiau a thechnegau y gall myfyrwyr eu defnyddio fel tystiolaeth o'u hymatebion personol.

Gellir cyflwyno'r ddwy uned ar unrhyw ffurf briodol megis llyfrau braslunio, dyddiaduron gweledol, portffolios traddodiadol neu e-bortffolios, arddangosfeydd wedi'u mowntio, gosodiadau, cyflwyniadau digidol neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gynnwys, ffurf na maint y gwaith na faint o dystiolaeth i'w dethol a'i chyflwyno, er y dylai'r pwyslais fod ar yr ansawdd yn hytrach na'r maint. Gall unedau, er enghraifft, gael eu cyflwyno ar ffurf dalennau arddangos, neu un neu fwy o lyfrau braslunio/llyfrau gwaith, neu e-bortffolio o waith ymchwil ac astudiaethau paratoadol perthnasol, gan gynnwys tystiolaeth o ymateb personol a datblygiad creadigol ynghyd ag un neu fwy o ddarnau gorffenedig.

© WJEC CBAC Ltd.

## Dilysu a chydnabyddiaethau

Mae'n bwysig i'r aseiniadau gael eu goruchwylio'n drylwyr gan y canolfannau i sicrhau mai'r ymgeiswyr eu hunain sydd wedi gwneud yr holl waith. Mae gofyn i bob ymgeisydd lofnodi dogfen ddilysu sy'n cadarnhau gwreiddioldeb ei aseiniad(au) a rhaid i'r canolfannau lofnodi i gadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Mae'n rhaid i bawb gwblhau'r dogfennau dilysu, nid y rhai sy'n cael eu dewis ar gyfer y sampl i'w weld gan y safonwr yn unig. Rhaid i'r dysgwr a'r athro/athrawes lofnodi'r dogfennau hyn. Bwriad y rhan 'Fy Natganiad Creadigol' yn y dogfennau hyn yw cefnogi'r broses hon drwy esbonio a dilysu taith bersonol, greadigol pob ymgeisydd ym mhob uned. Mae'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol a'r wefan yn dangos enghreifftiau o'r ffurfiau hyn.

Rhaid cydnabod yn glir unrhyw ffynonellau eilaidd, megis delweddau o weithiau neu ddyfyniadau gan artistiaid neu ffotograffwyr a dylid nodi unrhyw waith nad yw'n perthyn yn gyfan gwbl i'r myfyriwr.

Rhaid i bob athro sydd wedi marcio gwaith ymgeiswyr lofnodi'r datganiad dilysu sy'n cyd-fynd â'r ddogfen 'Fy Natganiad Creadigol' ar gyfer pob uned i gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a'i fod wedi'i gynnal dan yr amodau a roddir yn y fanyleb hon. Rhaid i athrawon sicrhau bod y dogfennau Dilysu a 'Fy Natganiad Creadigol' yn cael eu cwblhau gan bob myfyriwr a'u bod ar gael i'w gwirio yn ystod y safoni.

## Asesu: cynlluniau marcio a chynnwys a awgrymir

Dylai athrawon ddefnyddio'r cynlluniau marcio sy'n cael eu cynnwys yn y fanyleb hon, gan gyfeirio am arweiniad at y cynnwys a awgrymir, wrth asesu Unedau 1 a 2 yn fewnol. Cawsant eu llunio er mwyn cyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau ac yn helpu i wahaniaethu'n glir rhwng yr amrywiol lefelau cyflawniad. Bydd y cynlluniau marcio fwyaf gwerthfawr o'u defnyddio ar y cyd ag arweiniad ac enghreifftiau o waith wedi'i asesu, y bydd CBAC yn eu darparu'n flynyddol er mwyn helpu canolfannau i nodi'r safon gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol. Dylid cyfeirio at atodiadau B ac C am fanylion pellach.

## Safoni mewnol

Yn ystod y broses safoni mewnol dylai athrawon ddefnyddio'r cynlluniau marcio ar y cyd â'r offer asesu a argymhellir gan CBAC i wneud asesiadau manwl gywir a dibynadwy o gyflawniad y myfyrwyr ym mhob un o'r pedwar amcan asesu. Bydd marciau'n cael eu dyfarnu trwy gyplysu perfformiad yr ymgeisydd mewn perthynas â phob amcan asesu ag un o'r disgrifwyr perfformiad, ac yna benderfynu i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf yn ei waith. Dylai athrawon benderfynu ar farc ar gyfer pob amcan asesu ac yna adio'r marciau i ddarparu cyfanswm.

Mae dau brif gwestiwn i'w hystyried gan athrawon wrth asesu'r gwaith a gyflwynir gan yr ymgeiswyr. Yn gyntaf, 'A yw'r cyflwyniad yn mynd i'r afael â phob agwedd ar bob amcan asesu?' Ac, yn ail, ar sail y dystiolaeth sydd wedi'i darparu, 'Beth yw ansawdd y dystiolaeth hon?' Hefyd gellir cael arweiniad a chymorth ychwanegol i ddarganfod unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a gyflwynwyd trwy gyfeirio at y rhestr wirio amcanion asesu a'r cynnwys a awgrymir. Dylid cyfeirio hefyd at yr enghreifftiau sydd ar gael ar wefan CBAC gan y bydd y rhain o gymorth i gymharu a barnu gwaith yn gywir. Mae'n bwysig bod yn hollol wrthrychol ynghylch y broses asesu: ni ddylai'r hyn y mae'r athro yn ei wybod am yr ymgeisydd a'i waith ddylanwadu arno. Bydd safonwr ymweld yn seilio ei farn ar y dystiolaeth mae'n ei weld yn unig. Rhaid sicrhau, wrth farnu, <u>na</u> roddir ystyriaeth uniongyrchol i ymdrech, potensial hysbys neu hyd yn oed anawsterau megis problemau iechyd y mae'r ymgeisydd wedi'u hwynebu.

© WJEC CBAC Ltd.

Rhaid barnu gwaith ymgeiswyr yn erbyn **pob un** o’r pedwar amcan asesu, gan y bydd perfformiad ymgeisydd yn aml yn wahanol ar gyfer AA1, AA2, AA3 ac AA4. Ar ôl penderfynu i ba raddau yr ymdriniwyd â phob rhan o bob amcan asesu, rhaid barnu pa safon a gyrhaeddwyd ym mhob un. Un o bwrpasau canolog asesu mewnol yw cynhyrchu trefn restrol o gyflawniad yr ymgeiswyr.

Os oes gan ganolfannau gofrestriadau ar gyfer mwy nag un teitl neu wahanol grwpiau addysgu o fewn un teitl, rhaid bod safoni wedi digwydd rhwng yr athrawon cyn cyflwyno’r marciau mewnol er mwyn i CBAC fod yn fodlon bod y ganolfan wedi cytuno ar ddull o gydlynu safonau i gynhyrchu trefn restrol gyffredinol ar gyfer pob uned o fewn pob teitl. Mewn canolfan neu gonsortiwm lle mae mwy nag un athro, mae'n hanfodol safoni gwaith o bob grŵp addysgu yn fewnol. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod y marcio’n gyson a bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer yr holl grwpiau addysgu dan sylw. Rhaid i un person a enwir fod yn gyfrifol am y broses hon, sef y pennaeth adran fel rheol.

Fel rhan o safoni mewnol gall yr holl athrawon farcio rhai darnau enghreifftiol o waith yn annibynnol er mwyn darganfod unrhyw wahaniaethau mewn safonau marcio. Dylai gwahaniaethau o’r fath gael eu trafod gan bawb i gyrraedd safon gyffredin y cytunwyd arni. I’r diben hwn, gall fod o gymorth i gyfeirio at ddeunydd archifol megis gwaith blaenorol neu enghreifftiau ar-lein a ddarperir gan CBAC.

Rhaid cyflwyno marciau mewnol Uned 1 ac Uned 2 i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai ym mlwyddyn yr arholiad.

## Cyflwyno marciau

Rhaid i ganolfannau gyflwyno marciau'r ddwy uned a asesir yn fewnol ar-lein yn ystod tymor yr haf ym mlwyddyn cyflwyno'r gwaith i'w safoni.

Pan fydd marciau wedi'u cyflwyno i CBAC, bydd y system ar-lein yn cymhwyso fformiwla'r sampl yn seiliedig ar y drefn restrol gyffredinol i'r cofrestriad cyfan ac yn nodi'n syth y sampl o ddysgwyr y dewisir eu gwaith i'w safoni.

Ar ôl i'r ganolfan asesu portffolios ac aseiniadau wedi'u gosod yn allanol y myfyrwyr a chyflwyno'r marciau i CBAC, ni ddylai ymgeiswyr gael gweld eu gwaith i'w ddatblygu ymhellach.

## Consortia ysgol neu goleg

Os yw ysgol neu goleg yn rhan o gonsortiwm lle mae trefniadau addysgu ar y cyd (lle cafodd myfyrwyr o ysgolion a/neu golegau gwahanol eu haddysgu ar y cyd ond eu hysgol neu goleg eu hunain sy'n eu cofrestru), **rhaid hysbysu CBAC yn flynyddol fel a ganlyn:**

- llenwi ffurflenni Cais am Drefniadau Asesu Consortiwm (ffurflen y Cyd-gyngor Cymwysterau)

- penodi cydlynydd consortiwm sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith yr holl grwpiau addysgu ar draws y consortiwm yn cael ei safoni'n fewnol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Y broses safoni

Ar ôl yr asesu mewnol, cyflwyno'r marciau i CBAC a nodi'r sampl i'w safoni, bydd safonwr yn ymweld i gwblhau'r safoni. Cynhelir y broses hon yn ystod Mai a Mehefin fel arfer a bydd yn cynnwys yr holl waith a nodwyd i'w safoni mewn canolfan. Bydd y safonwr yn asesu'r ddwy uned TGAU yn ystod yr ymweliad. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl am y safoni.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod myfyrwyr yn cyflwyno eu gwaith yn y ffurf fwyaf priodol ar gyfer y gwaith a gynhyrchwyd. Mae'n hanfodol labelu pob darn o waith yn glir ac arddangos elfennau perthynol (er enghraifft llyfrau braslunio a gwaith terfynol) gyda'i gilydd. Y canolfannau hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau mai'r un gwaith sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer y safonwr ymweld ag a gyflwynwyd yn wreiddiol i'w asesu'n fewnol. Ni ddylai gael ei ategu â deunydd ychwanegol.

Bydd safonwyr yn rhoi adborth manwl i ganolfannau ar ffurf adroddiad fydd ar gael ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau. Gwneir addasiadau i farciau asesiad mewnol y canolfannau os penderfynir nad yw'r asesiad hwnnw'n cydymffurfio â'r safonau cyffredin a sefydlwyd gan CBAC. Os nad yw canolfannau'n cytuno â chanlyniadau'r safoni, mae dewis o wasanaethau ar ôl y canlyniadau ar gael iddynt a amlinellir ar y wefan.

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid cymryd yr holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol).

Mae'r codau cofrestru'n cael eu dangos isod.

| **Teitl y cymhwyster** | **Codau cofrestru** | |
|---|---|---|
| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| TGAU Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio) CBAC | 3650QS | 3650CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain) CBAC | 3651QS | 3651CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol) CBAC | 3652QS | 3652CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau) CBAC | 3653QS | 3653CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) CBAC | 3654QS | 3654CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn) CBAC | 3655QS | 3655CS |
| TGAU Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) CBAC | 3656QS | 3656CS |

Gweler yr argraffiad cyfredol o *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am Godau* CBAC am y dulliau cofrestru diweddaraf.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yng Nghymru yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD A

## LLUNIADU

Mewn ymateb i argymhellion y diwydiannau creadigol, addysg uwch, y Gymdeithas Genedlaethol dros Addysg mewn Celf a Dylunio, y *Cultural Learning Alliance*, Cyngor y Celfyddydau ac athrawon arbenigol, mae mwy o bwyslais erbyn hyn ar werth lluniadu yn y Cynnwys Pwnc a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg.

Yn y *Cynnwys Pwnc TGAU Celf a Dylunio* mae'r AA yn gofyn bod myfyrwyr sy'n dilyn manyleb TGAU Celf a Dylunio yn dangos eu bod yn gallu 'defnyddio sgiliau lluniadu at anghenion a phwrpasau gwahanol, yn briodol i'r cyd-destun'. Mae eglurhad pellach yn cael ei roi ynglŷn â'r gofyn hwn yn yr ôl-nodyn am gynnwys pwnc yr AA: 'Rhaid i bob myfyriwr gefnogi'r broses ddatblygu ym mhob maes astudio o'i ddewis gan ddefnyddio lluniadu'. Mae'n bwysig adnabod cyd-destun y gofyn hwn, ac i'r perwyl hwn dylid nodi'r canlynol, 'Nid oes gofyn i'r myfyrwyr ddangos meistrolaeth dechnegol ar sgiliau lluniadu oni bai i hyn fod yn berthnasol i'w maes astudio.'

Gwerthfawrogodd CBAC erioed pa mor bwysig yw lluniadu yn ein cymwysterau celf a dylunio, ac mae'r fanyleb hon eto'n cynnal ac yn atgyfnerthu'r dull hwn. Awgrymir y dylai sgiliau lluniadu fod yn rhan annatod o Unedau 1 a 2, er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu gwneud defnydd hyderus o'r elfen hanfodol hon o'r broses greadigol ac o iaith weledol. Hefyd dylai atgyfnerthu ymarfer, cefnogi dilyniant a helpu bodloni gofynion addysg bellach ac uwch a/neu'r diwydiannau creadigol.

Gellir dadlau bod lluniadu'n unigryw gan ei fod yn cynyddu gallu'r myfyrwyr i weld ac i ddeall y byd gweledol a chyffyrddol. Yn bwysig, mae'n galluogi iddyn nhw feddwl yn weledol ac i gyfleu'r meddyliau hyn i eraill. Mae safonwyr, wrth asesu cyflwyniadau TGAU Celf a Dylunio, yn cydnabod yn aml bod egni a chwmpas creadigedd y myfyrwyr wedi'i gyfyngu gan ddiffyg delweddu syniadau trwy luniadu. Hyd yn oed os yw'r lefel cymhwysedd a enillwyd gan y myfyrwyr yn gymharol fach, gallant ddefnyddio lluniadu'n bwrpasol o hyd i gofnodi gwybodaeth, delweddu syniadau a chyfathrebu posibiliadau. Mae angen i bob myfyrwyr ddod yn gymwys yn y ffurfiau lluniadu sy'n briodol i'r opsiwn a astudir ganddynt.

Mae mwyafrif yr athrawon ac ymarferwyr celf a dylunio yn sylweddoli pa mor hanfodol bwysig yw lluniadu a'r defnydd o sgiliau lluniadu at anghenion a phwrpasau gwahanol, fel y bo'n addas i gyd-destun y gwaith. Felly nid yw 'meistrolaeth dechnegol' o anghenraid yn golygu bod gofyn lluniadu'n arsylwadol mewn ffordd fanwl gywir a hynod fedrus ond, yn hytrach, yr angen i fyfyrwyr ddatblygu eu gallu wrth ddefnyddio ffurfiau lluniadu sy'n briodol i'r dewis maent yn ei astudio. Gellir defnyddio llawer o gyd-destunau ar gyfer lluniadu yn y fanyleb hon gan ei fod yn rhan o'r broses greadigol. Mae llawer o gyd-destunau lluniadu sy'n addas ar gyfer disgyblaethau, o Ddylunio Tecstilau i Animeiddio neu Ffotograffiaeth.

Yn eu plith mae:
- defnydd pwrpasol o luniadu i gofnodi gwybodaeth
- ei ddefnyddio wrth ddylunio, delweddu neu fynegi syniadau
- ei botensial wrth gyfleu posibiliadau, megis trefniadau cyfansoddiadol.

© WJEC CBAC Ltd.

Gan ddibynnu ar y gweithgaredd a'r bwriad, gall y term 'lluniadu' gynnwys brasluniau, astudiaethau arsylwi dadansoddol, byrddau stori, brasluniau bawd cyfansoddiadol neu adeileddol, gosodiadau a gwaith bras, astudiaethau arbrofol, ystumiol neu fynegiannol, modelu dau neu dri dimensiwn, cynlluniau, golygon neu ddyluniadau manwl. Nid oes fawr o gyfyngu ar y diffiniad o luniadu, ac mae'r amrywiaeth o gyfryngau yr un mor eang: sialc; siarcol (meddal neu galed); pensil lliw; crayon conté; graffit; bys dynol (gydag inc neu baent); dilewyr; marcwyr gwirod; pastel; pen ac inc; paent; a phensil. Nid yw'r rhestr hon yn gwbl gyflawn nac yn cael ei chyfyngu i gyfryngau monoton; gellir cynnwys lluniadau lliw, diagramau a chynlluniau.

Mae technolegau digidol yn cynnig ffurf arall ar luniadu gan ddefnyddio llechi, cyfrifiaduron neu ffonau symudol amrywiol a'u cyfuno â rhaglenni neu appiau fwyfwy soffistigedig. Ymhlith y cyfleoedd mae lluniadu rhydd 'yn y fan a'r lle' i ddefnyddio cymwysiadau dylunio drwy gymorth cyfrifiadur. Mae arbrofi â chyfryngau lluniadu cymysg, yn eu plith cyfuno dulliau digidol a thraddodiadol o weithio, yn gallu bod yn hynod ysgogol a chreadigol hefyd.

Nid yw'n fwriad gan y fanyleb i ffafrio un ffurf ar luniadu dros ffurf arall. Y braslun ystumiol mwyaf bras, yr astudiaeth fwyaf medrus yn dechnegol neu ddyluniad hynod fanwl; mae lle i bob un. Yn hytrach, mae'n bwysig bod lluniadu'n bwrpasol ac yn fwy nag addurn caboledig yn unig. Gall lluniadau wedi'u hanodi fod yn ddefnyddiol iawn i'r perwyl hwn o ran helpu i egluro prosesau meddwl ym meysydd ffotograffiaeth, dylunio tri dimensiwn neu gelfyddyd gain er enghraifft. Gall lluniadau, hyd yn oed y 'braslun' cyflymaf a mwyaf byrfyfyr, fod yn werthfawr er mwyn dogfennau camau arwyddocaol yn y broses greadigol fel nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth heb esboniad o gwbl.

Gall myfyrwyr ddefnyddio amrywiol ddulliau i gofnodi eu gwaith ar ffurfiau sy'n addas i'r gweithgareddau a gyflawnwyd. Er enghraifft, gallai dogfennu gynnwys defnyddio llyfrau braslunio, technolegau digidol/newydd, a chasgliadau rhydd o waith a/neu daflenni dylunio. Cyfryngau effeithiol iawn i'w defnyddio gan fyfyrwyr yw llyfrau braslunio, dyddiaduron gweledol neu lyfrau gwaith crefft/dylunio. O'u defnyddio gallant gofnodi, drwy luniadu a dulliau eraill, dameidiau diddorol o wybodaeth, rhoi cynnig ar bosibiliadau myfyrgar ac archwilio defnyddiau a thechnegau fel rhan o astudiaeth ymchwiliol. Storfeydd personol, ymchwiliol ydynt i'w defnyddio wrth gynhyrchu a dychmygu syniadau fel rhan o broses greu ailadroddus. Yn aml byddant yn cynnwys syniadau bras a nodiadau gweledol heb eu gorffen yn hytrach na ffurfio casgliad o ddarnau gwaith gorffenedig.

## Nodyn byr am ffynonellau cynradd a lluniadu drwy arsylwi

Yn nigwyddiadau DPP ac adroddiadau arholwyr diweddar CBAC tynnwyd sylw at ba mor ddymunol yw gweld cyrsiau'n rhoi pwyslais ar fyfyrwyr yn gweithio o brofiad uniongyrchol yn hytrach na defnyddio gormodedd o ddelweddau eilaidd wedi'u llwytho i lawr o wefannau. Mae'n werth nodi hefyd bod safonwyr yn nodi'n gyson bod gwaith sy'n deillio o ffynonellau gwreiddiol yn arwain at fwy o ganlyniadau gwreiddiol a phersonol ac yn sgil hynny mae'r effaith ar gyrhaeddiad yn un gadarnhaol iawn.

Gall athrawon helpu i gefnogi'r broses hon drwy goladu casgliad o adnoddau dosbarth i'w darparu ar gyfer y myfyrwyr; a thrwy annog y defnydd o ffynonellau lleol megis yr amgylchedd mewnol neu allanol, neu orielau ac amgueddfeydd.

Mae'r dull hwn yn cael ei adleisio gan ddeunyddiau'r Asesiad wedi'i Osod yn Allanol, y Cynnwys a Awgrymir (Atodiad C) a'r 'Rhestr Wirio Amcanion Asesu i Fyfyrwyr (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol). Lluniwyd y deunyddiau hyn, ynghyd â'r fanyleb, i gefnogi arfer llwyddiannus ac annog y myfyrwyr i ystyried lluniadu fel gweithgaredd sylfaenol sydd yr un mor berthnasol i'r holl ddisgyblaethau ac arnodiadau.

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD B Cynlluniau marcio

Sut i ddefnyddio'r cynlluniau marcio:

- Dylai'r band priodol **ar gyfer pob amcan asesu** gael ei bennu trwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid pennu'r marc priodol trwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**.
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y 4 amcan asesu adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, e.e. gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1 a band 5 ar gyfer AA2.
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u llunio i gynorthwyo'r broses farcio trwy nodi lefelau unigol o gyflawniad ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau gradd.
- Dylai'r disgrifwyr perfformiad gael eu defnyddio yng nghyd-destun cymhwyster TGAU Celf a Dylunio a'r safonau perfformiad a ddisgwylir yng nghyswllt hynny. Dylai athrawon sicrhau bod eu gwaith marcio'n gywir a dibynadwy trwy ddefnyddio cynlluniau marcio TGAU CBAC sy'n briodol i uned 1 neu uned 2 a thrwy gyfeirio at y gwaith enghreifftiol sydd ar gael ar wefan CBAC.

**Cynllun Marcio ar gyfer TGAU CELF a DYLUNIO**
**UNED 1: Portffolio (Cyfanswm y Marciau = 120)**

| Band | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 |
|---|---|---|---|---|
| | **Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, gan amlygu dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau.** | **Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol.** | **Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.** | **Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol.** |
| 5 | **25 – 30 marc** | **25 – 30 marc** | **25 – 30 marc** | **25 – 30 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu mewn ffyrdd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chydlynol.<br><br>Dadansoddiad beirniadol craff a thrwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion hyderus ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol trylwyr ac arbrofi pwrpasol a chreadigol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli'n fedrus a'u defnyddio â dychymyg.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus craff a detholus yn cyfrannu'n gyson at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n soffistigedig trwy ymchwil ac ymholi helaeth a chydlynol sy'n hynod o berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, gan ddangos lefel ddofn o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb hynod o ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd soffistigedig, gydlynol a hyderus.<br><br>Dangosir dealltwriaeth graff a thrylwyr o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac argyhoeddiadol iawn. |
| 4 | **19 – 24 marc** | **19 – 24 marc** | **19 – 24 marc** | **19 – 24 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl.<br><br>Dadansoddiad beirniadol trwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion pwrpasol ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol perthnasol ac arbrofi creadigol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n hyderus.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus effeithiol a thrylwyr yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n hyderus mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi effeithiol sy'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, gan ddangos lefel dda o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb dychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd hyderus ac effeithiol.<br><br>Dangosir dealltwriaeth dda o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac argyhoeddiadol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3** | **13 – 18 marc** | **13 – 18 marc** | **13 – 18 marc** | **13 – 18 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n weddol dda trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.<br><br>Dadansoddiad beirniadol gweddol dda o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion boddhaol ac annibynnol ar y cyfan. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi perthnasol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n weddol dda.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus gweddol dda o archwiliadau yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n weddol dda mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd at ei gilydd yn berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio gweddol feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr ar y cyfan. | Ymateb gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd foddhaol.<br><br>Dangosir dealltwriaeth resymol o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n weddol dda. |
| **2** | **7 – 12 marc** | **7 – 12 marc** | **7 – 12 marc** | **7 – 12 marc** |
| | Ceir peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau rhannol ddwys.<br><br>Peth dadansoddi ffynonellau, sy'n cyfrannu'n rhannol at ymatebion sylfaenol. | Mae syniadau'n cael eu rhannol fireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi.<br><br>Mae peth ymgais i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Mae peth adolygu a gwerthuso parhaus yn cyfrannu'n rhannol at y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sylfaenol mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd weithiau'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir peth myfyrio ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sydd weithiau'n dangos dealltwriaeth ac ystyr. | Mae'r ymateb i ryw raddau'n bersonol ac ystyrlon a chaiff bwriadau eu gwireddu mewn ffordd sylfaenol.<br><br>Dangosir peth dealltwriaeth o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol. |
| **1** | **1 – 6 marc** | **1 – 6 marc** | **1 – 6 marc** | **1 – 6 marc** |
| | Ceir datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.<br><br>Dadansoddiad cyfyngedig o ffynonellau nad ydynt wedi cael fawr ddim dylanwad ar ymatebion. | Ychydig iawn o fireinio ac archwilio syniadau.<br><br>Ymgais cyfyngedig i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Adolygu a gwerthuso parhaus cyfyngedig, sy'n cael fawr ddim dylanwad ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau cyfyngedig mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd â pherthnasedd cyfyngedig i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio cyfyngedig ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr cyfyngedig. | Ymateb personol cyfyngedig, gydag ychydig iawn o ymdrech i ddangos ystyr, sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.<br><br>Dangosir dealltwriaeth gyfyngedig o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd gyfyngedig. |
| **0** | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. |

© WJEC CBAC Ltd.

Sut i ddefnyddio'r cynlluniau marcio:

- Dylai'r band priodol **ar gyfer pob amcan asesu** gael ei bennu trwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd orau.
- Yna dylid pennu'r marc priodol trwy benderfynu **i ba raddau** y mae'r ymgeisydd wedi **bodloni'r meini prawf o fewn y band perthnasol**.
- Gall cyfanswm y marciau ar gyfer y 4 amcan asesu adlewyrchu perfformiad ar fandiau gwahanol ar draws yr amcanion asesu, e.e. gall ymgeisydd gyflawni band 4 ar gyfer AA1 a band 5 ar gyfer AA2.
- Dylid nodi bod y bandiau wedi'u llunio i gynorthwyo'r broses farcio trwy nodi lefelau unigol o gyflawniad ac nad ydynt yn cyfateb i ffiniau gradd.
- Dylai'r disgrifwyr perfformiad gael eu defnyddio yng nghyd-destun cymhwyster TGAU Celf a Dylunio a'r safonau perfformiad a ddisgwylir yng nghyswllt hynny. Dylai athrawon sicrhau bod eu gwaith marcio'n gywir a dibynadwy trwy ddefnyddio cynlluniau marcio TGAU CBAC sy'n briodol i uned 1 neu uned 2 a thrwy gyfeirio at y gwaith enghreifftiol sydd ar gael ar wefan CBAC.

**Cynllun Marcio ar gyfer TGAU CELF a DYLUNIO**
**UNED 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (Cyfanswm y Marciau = 80)**

| Band | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 |
|---|---|---|---|---|
| | **Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, gan amlygu dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau.** | **Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol.** | **Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.** | **Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol.** |
| **5** | **17 – 20 marc** | **17 – 20 marc** | **17 – 20 marc** | **17 – 20 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu mewn ffyrdd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chydlynol.<br><br>Dadansoddiad beirniadol craff a thrwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion hyderus ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol trylwyr ac arbrofi pwrpasol a chreadigol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli'n fedrus a'u defnyddio â dychymyg.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus craff a detholus yn cyfrannu'n gyson at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n soffistigedig trwy ymchwil ac ymholi helaeth a chydlynol sy'n hynod o berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, gan ddangos lefel ddofn o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb hynod o ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd soffistigedig, gydlynol a hyderus.<br><br>Dangosir dealltwriaeth graff a thrylwyr o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac argyhoeddiadol iawn. |
| **4** | **13 – 16 marc** | **13 – 16 marc** | **13 – 16 marc** | **13 – 16 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl.<br><br>Dadansoddiad beirniadol trwyadl o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion pwrpasol ac annibynnol. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol perthnasol ac arbrofi creadigol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n hyderus.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus effeithiol a thrylwyr yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n hyderus mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi effeithiol sy'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio trylwyr ac effeithiol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, gan ddangos lefel dda o ddealltwriaeth ac ystyr. | Ymateb dychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd hyderus ac effeithiol.<br><br>Dangosir dealltwriaeth dda o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n glir ac argyhoeddiadol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3** | **9 – 12 marc** | **9 – 12 marc** | **9 – 12 marc** | **9 – 12 marc** |
| | Caiff syniadau eu datblygu'n weddol dda trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.<br><br>Dadansoddiad beirniadol gweddol dda o ffynonellau, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer ymatebion boddhaol ac annibynnol ar y cyfan. | Mae syniadau'n cael eu mireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi perthnasol.<br><br>Mae cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n weddol dda.<br><br>Mae adolygu a gwerthuso parhaus gweddol dda o archwiliadau yn cyfrannu at fireinio a datblygu'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Mae syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau'n cael eu cofnodi'n weddol dda mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd at ei gilydd yn berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio gweddol feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr ar y cyfan. | Ymateb gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd foddhaol.<br><br>Dangosir dealltwriaeth resymol o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu'n weddol dda. |
| **2** | **5 – 8 marc** | **5 – 8 marc** | **5 – 8 marc** | **5 – 8 marc** |
| | Ceir peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau rhannol ddwys.<br><br>Peth dadansoddi ffynonellau, sy'n cyfrannu'n rhannol at ymatebion sylfaenol. | Mae syniadau'n cael eu rhannol fireinio a'u harchwilio trwy ddethol ac arbrofi.<br><br>Mae peth ymgais i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Mae peth adolygu a gwerthuso parhaus yn cyfrannu'n rhannol at y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sylfaenol mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd weithiau'n berthnasol i fwriadau personol.<br><br>Ceir peth myfyrio ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sydd weithiau'n dangos dealltwriaeth ac ystyr. | Mae'r ymateb i ryw raddau'n bersonol ac ystyrlon a chaiff bwriadau eu gwireddu mewn ffordd sylfaenol.<br><br>Dangosir peth dealltwriaeth o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol. |
| **1** | **1 – 4 marc** | **1 – 4 marc** | **1 – 4 marc** | **1 – 4 marc** |
| | Ceir datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.<br><br>Dadansoddiad cyfyngedig o ffynonellau nad ydynt wedi cael fawr ddim dylanwad ar ymatebion. | Ychydig iawn o fireinio ac archwilio syniadau.<br><br>Ymgais cyfyngedig i reoli a defnyddio cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau.<br><br>Adolygu a gwerthuso parhaus cyfyngedig, sy'n cael fawr ddim dylanwad ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. | Ceir cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau cyfyngedig mewn ffyrdd priodol trwy ymchwil ac ymholi sydd â pherthnasedd cyfyngedig i fwriadau personol.<br><br>Ceir myfyrio cyfyngedig ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, sy'n dangos dealltwriaeth ac ystyr cyfyngedig. | Ymateb personol cyfyngedig, gydag ychydig iawn o ymdrech i ddangos ystyr, ac sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.<br><br>Dangosir dealltwriaeth gyfyngedig o iaith weledol yn y gwaith a gyflwynir a chaiff pwrpas a bwriad y gwaith eu cyfleu mewn ffordd gyfyngedig. |
| **0** | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. | Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno. |

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD C Cynnwys a Awgrymir ar gyfer unedau 1 a 2

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r cynnwys a awgrymir gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu).*

Mae'r teitl hwn yn cynnig cwrs eang ei sylfaen a luniwyd i hyrwyddo dysgu ar draws amrywiaeth o brofiadau. Gall ***Celf, Crefft a Dylunio*** gynnwys y defnydd o amrediad bron yn ddi-ben-draw o dechnegau, prosesau a defnyddiau, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau dyfnder priodol yn ogystal â lled y profiadau dysgu. Gellir defnyddio amryfal brosesau, offer, technegau, defnyddiau ac adnoddau i greu arteffactau o un math neu'r llall ac i gynhyrchu gwahanol fathau o dystiolaeth o ddulliau gweithio a chanlyniadau. Mae'r pwyslais ar ymagwedd fwy *eang* sy'n gymesur o ran galw â *dyfnder* y dysgu sydd ei angen yn y teitlau mwy arbenigol. Mae modd gwahaniaethu rhwng *Celf, Crefft a Dylunio* a theitlau eraill gan ei fod yn galluogi myfyrwyr i archwilio diddordebau personol a dangos eu gallu ar draws cwrs astudio eang.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau celf, crefft a dylunio fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Dylai myfyrwyr archwilio meysydd ymarferol a chyd-destunol a ddewiswyd o gelf, crefft a dylunio drwy amrediad o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer celf, crefft a dylunio, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r teitlau arbenigol Celfyddyd Gain, Cyfathrebu Graffig, Dylunio Tecstilau, Dylunio Tri Dimensiwn neu Ffotograffiaeth, a meysydd astudio sy'n berthnasol i'r rhain.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Celf, Crefft a Dylunio* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes ac archwilio ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r meysydd astudio o'u dewis yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celf, crefft a dylunio a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys cymwysiadau mwy ymarferol ffurfiau celf, crefft a dylunio.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang a defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio manylion yn y broses o ddylunio a chynhyrchu darnau ceramig, neu ddefnyddio tôn neu liw yn fanwl gywir, neu sefydlu perthnasoedd rhwng teipograffeg a delweddau.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth gyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, yn enwedig lluniadu, gan gynnwys, er enghraifft, astudiaethau llinell, lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio, taflenni astudio a/neu ar lechi cyfrifiadurol neu ddulliau eraill, i gefnogi bwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.
- Ystyried cyfleoedd, lle bo'n briodol, i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i gyd-destunau newydd. Er enghraifft, drwy addasu ffurf cerameg ar raddfa fach at ddyluniad ar gyfer celf tir.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau o'r cyflwyniad, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, yn cyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, hyddysg ac mewn trefn sydd yn hawdd i'w ddilyn.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid talu sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut gallai ddenu sylw cynulleidfa. Er enghraifft, gellid defnyddio deunyddiau gweledol a thestun i ddangos sut gellid datblygu syniad dechreuol ar gyfer darn o gelfyddyd gain yn boster ar gyfer gŵyl gerdd.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r cynnwys a awgrymir gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu).*

Diffinnir ***Celfyddyd Gain*** yma fel yr agwedd honno ar gelf, crefft a dylunio lle y mae gwaith yn cael ei ddatblygu'n bennaf at bwrpasau esthetig, deallusol neu gysyniadol yn hytrach na rhai gweithredol ac ymarferol. Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith artistiaid cain hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau celfyddyd gain fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hun. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis megis: peintio (amrywiol gyfryngau); lluniadu (cyfryngau amrywiol); argraffu (e.e. printio sgrin; ysgythriad; acwatint; lithograffi; printio bloc); stensiliau; cerfio; modelu; adeiladu; mosaig; symudion; celf amgylcheddol; sgraffito; cyfryngau cinetig; cyfryngau golau-seiliedig; cyfryngau digidol; cyfryngau cymysg. Maes astudio eang a datblygol yw hwn sydd hefyd yn cynnwys celfyddyd berfformiad a chysyniadol, yn ogystal ag agweddau ar wneud printiau, ffotograffiaeth a ffilm.
Mae *Celfyddyd Gain* yn cynnig dewis o gyfryngau a phrosesau traddodiadol a digidol ac yn ymwneud â defnydd mynegiannol o amrywiaeth arbennig o eang o dechnegau, sgiliau a defnyddiau, gan gynnwys rhai y gellir eu hailgylchu.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer celfyddyd gain cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd fel ffilm, cyhoeddi, gweinyddu'r celfyddydau, amgueddfeydd ac orielau, celfyddydau cymunedol, ac addysgu, a phob galwedigaeth sy'n gysylltiedig â'r teitl hwn.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Celfyddyd Gain* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygiad syniadau sy'n seiliedig ar astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol ar gelfyddyd gain hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, cerddoriaeth, dawns, drama, dylunio cynnyrch a chyfryngau wedi'u cyhoeddi a lle celfyddyd gain yn y rhain yn eu cymdeithas eu hunain ac mewn cymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan artistiaid cain a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaethau rhwng cerflunwaith, cerameg, gwneud printiau a ffotograffiaeth celfyddyd gain a chymwysiadau mwy ymarferol y ffurfiau celf, crefft a dylunio hyn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau a phrosesau celfyddyd gain priodol o eang, yn unigol a chyda'i gilydd. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o arferion celfyddyd gain, gan gynnwys lluniadu fel diben ynddo'i hun. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft, wrth fireinio manylion neu wrth ddefnyddio lliw a thôn cywir neu wedi'i orliwio.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth gyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, yn enwedig lluniadu, gan gynnwys, er enghraifft, astudiaethau llinell, lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio, taflenni astudio a/neu ar lechi cyfrifiadurol neu ddulliau eraill, i gefnogi bwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid talu sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut gallai ddenu sylw cynulleidfa. Er enghraifft, gellir defnyddio lluniadau, ffotograffau a nodiadau rhagarweiniol i ddangos sut gellid datblygu dilyniant o ddelweddau o flodyn o'r cyfnod blagur i'r cyfnod o bydru terfynol fel triptych wedi'i beintio.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r cynnwys a awgrymir gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu).*

Diffinnir ***Cyfathrebu Graffig*** yma fel y broses o greu deunydd sy'n weledol yn bennaf i gyfleu gwybodaeth, syniadau ac emosiynau trwy ddefnyddio elfennau graffig megis symbolau, diagramau, lluniadau, ffotograffau, mapiau a theipograffeg. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sy'n datblygu, gan ymgorffori amrywiaeth o ddisgyblaethau perthnasol a defnyddio sgiliau traddodiadol, fel caligraffi a llythyru wedi'i greu â llaw, ochr yn ochr â thechnolegau digidol arloesol. Mae'r ffiniau rhwng prosesau graffigol perthynol yn mynd yn fwyfwy aneglur ond mae agweddau, agweddau, fel dylunio drwy gymorth cyfrifiadur; dylunio gwe; dylunio apps a gemau; ffurfiau llythrennau; teipograffeg; lluniadu; darlunio technegol; darlunio ar gyfer llyfrau; dylunio printiau; ffilmiau adnabod sianeli teledu (TV idents); dilyniannau teitl ar gyfer ffilmiau; ffotograffiaeth, a dylunio pecynnau yn rhoi amcan o'r hyn y gellid ymdrin ag ef yn y dewis hwn.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith dylunwyr graffig hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau cyfathrebu graffig fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hun. Dylent ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis. Gall canlyniadau fod yn ddau ddimensiwn neu'n dri dimensiwn neu'n seiliedig ar amser, a gallant fod ar ffurf posteri, taflenni, crysau T, cloriau CD/DVD, cloriau llyfrau, tudalennau cylchgrawn, calendrau, stampiau, pecynnu, deunyddiau cyhoeddusrwydd, lifrai cerbyd, byrddau poster, hysbysebu, logos, brandio, hunaniaeth gorfforaethol, clyweledol (e.e. seiliedig ar amser a graffigau animeiddiedig), pwyntiau talu tri dimensiwn a dyluniadau arddangosfa.

Bydd dylunwyr yn aml yn cyfuno delweddau a ffurfiau llythrennau / teip i gyfleu neges cleient i gynulleidfa ac i archwilio posibiliadau creadigol cyfuno geiriau a delweddau. Tasg y dylunydd yw nid yn unig ddarganfod neu greu llythrennu a delweddau priodol ond hefyd sicrhau'r cydbwysedd gorau rhyngddynt.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd megis darlunio cyffredinol, teipograffeg, hunaniaeth gorfforaethol ac ymgynghori ar frandio, graffeg gwybodaeth, delweddaeth wedi'i chynhyrchu gan gyfrifiadur, animeiddio 2D, modelu 3D, dylunio ar gyfer dysgu, technoleg print, dylunio gwe, a gemau teledu, fideo a chyfrifiadur.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Cyfathrebu Graffig* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

### AA1

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gyfathrebu graffig hanesyddol a chyfoes ac archwilio ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r meysydd astudio o'u dewis yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan gyfathrebwyr graffig a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol, strategaethau marchnata, ymgyrchoedd hyrwyddo, a dylunio ar gyfer print a'r we.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith cyfathrebwyr graffig perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau cyfathrebu graffig a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gydag amrywiaeth briodol o eang o ddulliau a phrosesau cyfathrebu graffig, gan gynnwys trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o arferion cyfathrebu graffig, gan gynnwys lluniadu fel dull o archwilio a chyfleu syniadau. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio manylion, fel dewis ffontiau, cysylltiad teipograffeg â delweddau ac adnabod prosesau reprograffig addas.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis lluniadau gosodiad, brasluniau bawd, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol ac yn eu cefnogi.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr, yn cyflawni unrhyw friff dylunio, ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gellid defnyddio PowerPoint i gyflwyno gwahanol syniadau, gan ddangos gosodiadau, cyfresi lliw a ffurfdeipiau posibl yn ogystal â sut y gallai byrddau poster mawr edrych mewn lleoliadau penodol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r cynnwys a awgrymir gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu).*

Diffinnir ***Dylunio Tecstilau*** yma fel creu dyluniadau a chynhyrchion ar gyfer ffabrigau wedi'u gwehyddu, eu gwau, eu pwytho neu eu printio ac mae gofyn cael dealltwriaeth o ffibrau, edafedd a ffabrigau. Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol, megis gwaith dylunwyr a gwneuthurwyr tecstilau hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau dylunio tecstilau fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Mae cysylltiadau agos rhwng dulliau adeiladu, addurno, printio, gwnïo a llifo ym maes dylunio tecstilau a chyda dylunio ffasiwn a thecstilau gosodedig. Gellid ystyried cyfleoedd rhyngddisgyblaethol yn ogystal â datblygu arbenigaeth mewn un maes.

Rhaid i fyfyrwyr ddangos y gallu i weithio'n greadigol â phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis, er enghraifft: gwehyddu, printio arwyneb (bloc, sgrin neu ddigidol), gwneud patrymau, torri patrymau, brodwaith (â pheiriant neu â llaw), gwau, batic, cerflunwaith meddal, appliqué a collage.

Mae ***Dylunio Tecstilau*** yn cwmpasu amrediad eang iawn o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, yn eu plith ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu a nifer cynyddol o ddulliau rhyngddisgyblaethol. Mae'r dewis yn cynyddu wrth i ddefnyddiau a thechnolegau newydd gael eu datblygu, er enghraifft, ym maes 'tecstilau deallus'.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau fel y canlynol: dylunydd tecstilau, prynwr tecstilau, dylunydd ffasiwn, proffwydi ffasiwn, dylunydd gweuwaith, hetiwr, newyddiadurwr ffasiwn, ymgynghorydd lliw, dylunydd gwisgoedd theatraidd, darlunydd ffasiwn, torrwr patrymau a dylunydd-gwneuthurwr.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Dylunio Tecstilau* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, celfyddyd gain a chrefftau megis gemwaith.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ddylunwyr tecstil a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol, diwylliannol, esthetig ac ymarferol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ym maes dylunio tecstilau a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys y perthnasoedd rhwng ystyriaethau swyddogaethol, esthetig, arddulliol a thechnolegol a sut y caiff y rhain eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda dulliau a phrosesau dylunio tecstilau priodol o eang, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o ddylunio tecstilau, gan gynnwys lluniadu. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio manylion, fel dylunio a chynhyrchu patrwm arwyneb neu nodweddion addurniadol.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis brasluniau, darluniau, astudiaethau brodwaith braich rydd, darnau prawf a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, dyluniadau gwisgoedd ar gyfer perfformiad ysgol i'w gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, llenni wedi'u sgrin-brintio ar gyfer ystafell wely plentyn bach.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r cynnwys a awgrymir gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu).*

Diffinnir ***Dylunio Tri Dimensiwn*** yma fel dylunio, prototeipio, modelu neu wneud cynhyrchion traul, gwrthrychau ac amgylcheddau sydd yn anad dim yn swyddogaethol ac esthetig. Gallai hyn gynnwys ffurfiau cerfluniol safle-benodol sy'n cael eu gwneud i fodloni briff dylunio.

Bwriedir dyluniadau tri dimensiwn ar gyfer masgynhyrchu neu swp-gynhyrchu yn aml. Anaml y bydd y graddfeydd cynhyrchu hyn yn bosibl mewn ysgol neu goleg bach felly bydd y gwaith fel arfer yn ymwneud â datrys problemau ar lefel fwy unigol. Gellir meithrin sgiliau trin a thrafod a dealltwriaeth o gynhyrchu drwy wneud defnydd priodol o offer a defnyddiau. Gellir meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth trwy greu ymwybyddiaeth o ystyriaethau economaidd, cynllunio ar gyfer cynhyrchu, cyflwyno, cryfder adeileddau ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith dylunwyr a gwneuthurwyr tri dimensiwn hanesyddol a chyfoes, yn ogystal â gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau dylunio tri dimensiwn fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Dylai'r myfyrwyr amlygu'r gallu i weithio'n greadigol â phrosesau, technegau a defnyddiau, gan gynnwys rhai y gellir eu hailgylchu, sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis megis: dylunio drwy gymorth cyfrifiadur, gwneud modelau; prototeipio; llunio a chydosod. Mae'n hanfodol cael dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ffurf a swyddogaeth.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau megis dylunydd diwydiannol/cynhyrchion, dylunydd theatr, dylunydd teledu a ffilm, dylunydd arddangosfeydd, dylunydd defnyddiau pacio/pecynnau, dylunydd dodrefn, dylunydd mewnol, ceramegydd, gwneuthurwr modelau pensaernïol, gof arian a gemydd.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Dylunio Tri Dimensiwn* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ddylunio tri dimensiwn hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, gwaith crefftwyr sy'n gweithio gyda phren neu fetel.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ddylunwyr tri dimensiwn a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tri dimensiwn perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ym maes dylunio tri dimensiwn a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys y perthnasoedd rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac esthetig a sut y caiff y rhain eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda defnyddiau a phrosesau dylunio tri dimensiwn priodol o eang, gan gynnwys pren, clai, plastig, metel, cerdyn a phapur a, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o ddylunio tri dimensiwn. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio manylion, agweddau ar ymarferoldeb, ac ystyriaethau ergonomaidd ac esthetig.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy unrhyw ddulliau addas, megis brasluniau, diagramau, lluniadau technegol a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, cynhyrchu dyluniadau a model ar gyfer cyfarpar chwarae i iard chwarae plant mewn parc lleol neu lecyn agored.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol i gynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gallai myfyrwyr wneud model wrth raddfa o set ffilm neu theatr neu ddarn unigol o emwaith.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r cynnwys a awgrymir gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu).*

Diffinnir ***Ffotograffiaeth*** yma fel yr arfer o greu delweddau statig neu symudol hirbarhaol trwy gofnodi golau â defnyddiau sensitif i olau fel ffilm ffotograffig neu'n ddigidol trwy ddefnyddio synhwyrydd delweddau. Mae'n cynnwys ffotograffiaeth lonydd a chyfryngau lens-seiliedig eraill.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn archwilio ffynonellau beirniadol a chyd-destunol ymarferol a pherthnasol megis gwaith ffotograffwyr hanesyddol a chyfoes a gwahanol bwrpasau, bwriadau a swyddogaethau ffotograffiaeth fel y bo'n briodol i'w gwaith eu hunain. Defnyddir ffotograffiaeth a chyfryngau lens a golau seiliedig yn aml i ddogfennu a chofnodi, ac fel ffynhonnell gwybodaeth weledol ar gyfer meysydd astudio eraill. O fewn adran draddodiadol, rhaid darparu cyfarpar penodol ac arbenigol megis camerâu, helaethyddion a sychyddion, a gall gynnwys defnyddio cemegion a phrosesau ystafell dywyll. Fel arall, neu'n ychwanegol, gall ofyn am galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol neu'r hyn y cyfeirir ato yn fwy cyffredin heddiw fel yr 'ystafell dywyll ddigidol'. Rhaid i fyfyrwyr ddangos y gallu i weithio'n greadigol â phrosesau a thechnegau sy'n briodol i'r maes astudio o'u dewis, er enghraifft, ffotogramau; camerâu pindwll; prosesau ffilm (cemegol); prosesau digidol; ffotograffiaeth egwyl-amser; animeiddiad stop-ffrâm; gosod; ffilm; fideo; animeiddio; montage ffotograffig; trin delweddau'n ddigidol. Gall y gwaith terfynol fod yn seiliedig ar sgrin neu seiliedig ar brint, yn cynnwys delweddau llonydd neu symudol.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd fel hysbysebu, ffotonewyddiaduraeth, ffasiwn, bywyd gwyllt, ffotograffiaeth ddiwydiannol a thechnegol, stiwdios ffotograffiaeth ar y stryd fawr, a ffilm, teledu a fideo.

**Fel rhan o'u hastudiaethau *Ffotograffiaeth* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

### AA1

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o ffotograffiaeth a delweddaeth lens-seiliedig hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill ac archwilio ffynonellau eraill, er enghraifft, gwaith ffotonewyddiadurwyr a gwneuthurwyr ffilmiau.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau ac artistiaid fideo a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau, megis ystyriaethau moesegol.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau ac artistiaid fideo perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau ffotograffig, lens-seiliedig a golau-seiliedig a'r gwahaniaethau rhyngddynt, gan gynnwys sut y caiff genres gwahanol eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion neilltuol.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA2**

- Mireinio a myfyrio ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau ffotograffig priodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau o gyfryngau, gan wneud defnydd rheoledig o olau, cyflymder caead, agorfa, lensiau, hidlyddion a, lle y bo'n briodol, trin meddalwedd ddigidol yn bwrpasol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill a, lle y bo'n briodol, defnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o ffotograffiaeth a chyfryngau lens-seiliedig eraill. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio prosesau digidol a/neu gemegol, cyfansoddiad, neu ddefnyddio goleuo.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy ffotograffiaeth ac unrhyw ddulliau addas eraill, megis brasluniau, diagramau, byrddau stori, gosodiadau tudalen a nodiadau ysgrifenedig sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'n effeithiol yr hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr neu friff dylunio ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, gallai myfyrwyr ail-ddehongli paentiadau bywyd llonydd o 'Oes Aur' yr Iseldiroedd yn yr 17eg ganrif trwy osod testunau i fyny yn y stiwdio sy'n cyfateb iddynt ond sy'n berthnasol i'r 21ain ganrif.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Er enghraifft, gallai myfyrwyr gynhyrchu sioe sleidiau (ynghyd â thestun priodol) yn dogfennu delweddau o rannau o'r amgylchedd lleol sydd wedi'u hesgeuluso fel ffordd o ddechrau ymgyrch i wella'r gymuned.

© WJEC CBAC Ltd.

## Arweiniad: Cynnwys a Awgrymir ar gyfer Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol)

**ARWEINIAD:** *Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond ei fwriad yw rhoi arweiniad buddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch y mathau o dystiolaeth y dylid eu darparu ar gyfer pob amcan asesu yn benodol i'r teitl y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar ei gyfer. Gall y rhestr wirio amcanion asesu (sydd ar gael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ac ar y wefan) a'r cynnwys a awgrymir gael eu defnyddio ar y cyd ac maent hwy'n berthnasol i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Dylid cyfeirio at y wybodaeth hon ar ddechrau ac yn ystod y gwaith i sicrhau bod tystiolaeth ar draws yr amcanion asesu yn cael ei dangos a'i chyflwyno'n glir mewn aseiniadau. (Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig (gweler Atodiad B) sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu).*

Diffinnir ***Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol*** yma fel dadansoddi'n feirniadol, dehongli a gwerthuso'n fyfyriol, o safbwynt cyfoes, waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o'n cyfnod ni a chyfnodau eraill, ac o'n lle ni a lleoedd eraill. Dylid pwysleisio bod y dewis hwn yn wahanol i ymagweddau traddodiadol at hanes celf. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn derm arall am Hanes Celf a Chrefft. Mae gofyn i'r myfyrwyr ddarparu tystiolaeth o gyflawniad ar draws y pedwar amcan asesu.

Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r teitl hwn ddangos y gallu i ddadansoddi'n feirniadol a dehongli gweithiau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, gan gymryd i ystyriaeth wahanol gyd-destunau (e.e. hanesyddol, diwylliannol, cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol) eu cynhyrchu, er mwyn deall ystyron, pwrpasau, perthnasoedd a dylanwadau. Dylai myfyrwyr ddewis dulliau a chyfryngau priodol i gyfleu eu hymatebion ac i ddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu i weithio'n greadigol gyda'r topigau o'u dewis trwy ymdrin â rhai, neu'r rhan fwyaf, o'r agweddau canlynol:

- deall arteffactau a delweddau fel cynhyrchion neilltuol cymdeithas mewn cyfnod a lle penodol;
- ymchwilio i artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, mudiadau, arddulliau ac enghreifftiau o waith;
- gan astudio cyd-destunau a chyfeiriadau cymdeithasol, hanesyddol, gwleidyddol a diwylliannol;
- ymweld ag amgueddfeydd, orielau, stiwdios, unigolion;
- ymarfer barn feirniadol;
- astudio cyfnodau neu faterion hanesyddol penodol.

Dylai'r teitl gynnig amrediad eang o brofiadau dysgu deallusol ac ymarferol drwy strategaethau bywiog a chreadigol i ddatblygu a chyflwyno ymatebion personol, ymarferol, beirniadol a chyd-destunol. Gall y rhain gynnwys amrywiaeth fawr o ganlyniadau ymarferol anodedig sy'n amlygu dealltwriaeth o, er enghraifft, waith artist neu ddylunydd penodol, mudiad neu thema. Gallai canlyniadau o'r fath gynnwys cyflwyniadau clyweled, cyfweliadau (go iawn a dychmygol) gydag artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr sy'n cael eu hadysgrifio a'u darlunio, gwaith ymarferol wedi'i ysbrydoli'n uniongyrchol gan artist neilltuol a'i ail-ddehongli, neu feirniadaeth ar arddangosfa yn sgil ymweliad ag oriel neu stiwdio.

Er mwyn darparu digon o gyfleoedd i ymchwilio i arfer cyfoes, gall myfyrwyr astudio ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau megis curaduriaid neu gadwraethwyr mewn orielau, amgueddfeydd a chanolfannau'r celfyddydau, yn ogystal â newyddiadurwyr, athrawon ac academyddion.

© WJEC CBAC Ltd.

**Fel rhan o'u gwaith *Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol* dylai myfyrwyr anelu at gyflwyno tystiolaeth glir o fynd i'r afael â'r amcanion asesu, fel yn yr enghreifftiau canlynol.**

**AA1**

- Datblygu syniadau trwy ymgymryd ag astudiaethau ymchwiliol, cyd-destunol a diwylliannol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn eu cymdeithasau eu hunain a chymdeithasau eraill.
- Archwilio amrywiaeth eang o waith, (nid gwaith artistiaid cain yn unig), a deall y gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth o genres, mudiadau, cyd-destunau, arddulliau ac arferion celf, crefft a dylunio a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

**AA2**

- Dethol ac archwilio'n bwrpasol amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau, testunau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, symudiadau ac arddulliau a'r ffyrdd mae syniadau, agweddau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i sut mae llinell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill wedi cael eu defnyddio gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr. Pryd bynnag y bo modd, dylid ymweld â ffynonellau cynradd megis orielau, amgueddfeydd, stiwdios a gweithdai artistiaid, crefftwyr a dylunwyr i ddod wyneb yn wyneb ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau creadigol a'r bobl sydd wedi'u gwneud.
- Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang o'r topigau a ddewiswyd. Defnyddio rheolaeth ofalus, er enghraifft wrth fireinio prosesau i gynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.
- Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Sefydlu perthynas weithio glir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau gan ddogfennu camau arwyddocaol er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn datblygu heb dystiolaeth o'r broses greadigol.

**AA3**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ar ôl ymchwilio'n drwyadl i amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau a'u dadansoddi'n ofalus.
- Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol, mewnwelediadau a barnau trwy ffotograffiaeth ac unrhyw ddulliau addas eraill, megis lluniadu, peintio, nodiadau ysgrifenedig a recordiadau sain a/neu fideo sy'n berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'n effeithiol yr hyn sydd wedi'i ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron. Er enghraifft, darganfod ac ymweld â'r lleoedd y mae arlunydd tirluniau lleol wedi mynd iddynt i beintio ei luniau ac ailddehongli ei waith trwy weithio o ddelweddau (brasluniau a ffotograffau) sy'n cael eu gwneud yn yr un lleoedd.

**AA4**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo'n briodol. Er enghraifft, gwneud astudiaeth o hunanbortreadau artistiaid dethol o Rembrandt hyd heddiw gan ystyried Picasso, Kahlo, Warhol a Hockney, a dangos sut y gellid bod wedi defnyddio'r rhain i hyrwyddo eu hunain. Creu delwedd ohonoch chi eich hun (lluniadu, peintio, ffotograff, 'hunlun', ayb.) a chanddo bwrpas tebyg ac yn dangos eich diddordebau.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r gwaith a gyflwynir, yn eu plith ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sy'n hawdd ei dilyn ac yn arwain at ganlyniadau o safon.
- Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid talu sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut gallai ddenu sylw cynulleidfa. Er enghraifft, ysgrifennu a darlunio llyfr ar anifeiliaid mewn celf i blant ifanc.



© WJEC CBAC Ltd.